Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 441 | Mai 2023 | Pris £1

# LAWNSIO YMGYRCH CODI ARIAN - CERFLUN TWM CARNABWTH

Bydd noson yn cael ei chynnal yng Nghaffi Beca, Efail-wen ar nos Lun, Gorffennaf 17eg i lawnsio ymgyrch codi arian i gomisiynu cerflun o Twm Carnabwth wrth ymyl yr adeilad.

Mae'r trefnwyr, Pwyllgor Codi Cerflun Twm Carnabwth, wedi dewis Gorffennaf 17eg fel dyddiad lawnsio am mai dyna'r dyddiad yn 1839 yr ymosodwyd ar dollborth Efail-wen am y trydydd tro a'r tro olaf. Ni chafodd ei hail-godi wedi hynny er mawr ryddhad i drigolion lleol. Roedden nhw'n teimlo'r wasgfa o orfod talu am deithio trwy'r tollborth ar y ffordd fawr byth a beunydd, a hwythau eisoes yn wynebu tlodi enbyd oherwydd yr orfodaeth i dalu rhenti uchel. Roedden nhw hefyd o dan orfod i dalu degwm i'r eglwys wladol a hwythau erbyn hynny yn mynychu'r capeli yn hytrach nag eglwysi'r plwyf.

Mae'n fwriad gyda disgyblion yr ysgolion lleol i gymryd rhan, drwy ganu a llefaru. Bydd eraill yn cymryd rhan yn y lawnsio hefyd a'u henwau yn cael eu datgelu yn y man. Dywedodd aelod o'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol er mwyn denu arian gan gronfeydd cyllido i ddangos bod yna gefnogaeth a brwdfrydedd i'r fenter yn lleol. Yr un modd disgwylir i'r gymuned yn lleol i godi cyfran o'r £60,000 yr amcangyfrifir fydd ei angen.

Ond o ran hynny, rhagwelir y bydd pobl ar draws Cymru am gyfrannu at gost cerflun arweinydd sy'n cael ei ystyried yn arwr cenedlaethol. Swyddogion y Pwyllgor o dan gadeiryddiaeth Robert James yw Eurfyl Lewis, trysorydd a Hefin Wyn, ysgrifennydd. Datgelir rhagor o fanylion eto yn y rhifyn nesaf.



Teifryn Rees (Teifryn Felin) yng Nghaffi Beca ar noson lansio llyfr Hefin Wyn am Twm Carnabwth.



## Merched y Wawr
## Rhanbarthau'r De

Cinio'r Llywydd Cenedlaethol
Jill Lewis
Gwesty Nantyffin
Dydd Sadwrn, 29ain o Ebrill 2023

Jane Morgan, Swyddog Hyrwyddo a Datblygu Merched y Wawr, Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno rhodd i Jill Lewis, Llywydd Cenedlaethol.

*Gweler colofn Jill ar dudalen 10*

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **i'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Nansi Evans 01994 448392 |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com



Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Mae'n fis Mai, ac fe ddechreuodd y mis yn y modd gorau posib gyda digwyddiad bendigedig ar y penwythnos cyntaf i ddathlu'n diwylliant, a rhoi llwyfan i gynifer o berfformwyr a cherddorion. Braf iawn oedd gweld Gŵyl Fel 'Na Mai yng Nghrymych o dan ei sang. Mae'n amlwg fod y dyddiad wedi denu torfeydd rhyfeddol eleni, ac wrth gwrs, roedd llwyddiant yr ŵyl gyntaf y llynedd yn ffactor bwysig wrth ddenu ymwelwyr yn ôl trwy'r gatiau a chroesawu'r rhai oedd yno am y tro cyntaf eleni. Ac yn goron ar y cyfan, fe wenodd yr haul gydol y dydd, fwy neu lai.

Ond wrth gwrs, all neb drefnu'r tywydd, ond roedd gweddill y trefniadau trylwyr yng ngofal Menter Iaith Sir Benfro a llu o wirfoddolwyr o'r ardal, a fu'n gweithio'n ddiwyd ar y diwrnod, ac ymhell cyn hynny, er mwyn sicrhau llwyddiant yr ŵyl. Ac wrth gwrs, heb y gwaith diflino hwnnw, y brwdfrydedd a llafur cariad tuag at gynnal ein diwylliant Cymraeg, mi fyddai ein cymunedau tipyn tlotach. Felly diolch o galon i'r holl drefnwyr a gwirfoddolwyr. Ac i'r rhai ohonoch sydd heb fod yno eto, mae trefniadau Gŵyl fe 'Na Mai 2024 eisoes ar waith !

Ac wrth gwrs, mae yna ddigwyddiad pwysig arall ym mis Mai eleni, a hynny ddiwedd y mis, sef gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop. Ac eleni, mae Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i Sir Gaerfyrddin ac i dref Llanymddyfri. Unwaith eto, mae brwdfrydedd a llafur cariad llu o wirfoddolwyr yn allweddol wrth groesawu prifwyl yr Urdd yn ôl i Sir Gâr. A fyddai hi ddim yn bosib cynnal y fath ddigwyddiad chwaith heb y cyfraniadau hael sydd wedi llifo o'n cymunedau yn ystod amrywiol weithgareddau i godi arian yn ystod y blynyddoedd diwethaf. A doedd hi ddim yn rhwydd cynnal y momentwm yng nghanol pandemig.

Pob lwc i bob unigolyn, ysgol ac aelwyd yn ardal y Cardi Bach a fydd yn cystadlu ar y maes eleni. Mae'n brofiad gwych be bynnag fo'r canlyniad. A phob dymuniad da i ieuenctid yr ardal a fydd yn cymryd rhan yn y sioe agoriadol ar y Sul cyntaf sef Chwilio'r Chwedl a fydd yn arddangos hanes, a hud a lledrith Sir Gâr ar draws amrywiol safleoedd ar y maes.

Wrth gwrs, mae croesawu'r brifwyl i Sir Gâr yn gyfle hefyd i addurno'r Sir yn lliwiau'r Urdd a Chymru. Ac rwy'n edrych ymlaen i weld ffyrdd a strydoedd ein trefi a phentrefi yn fôr o goch gwyn a gwyrdd yn yr wythnosau nesaf, wrth i'r brenin ei hun, Mistar Urdd fynd am dro ar hyd y ffyrdd. Ac rwy'n siwr y caiff e groeso mawr yng ngorllewin Sir Gâr.



## *BBC Canwr y Byd Caerdydd 2023*

Dymuna'r Cardi Bach bob llwyddiant i Jessica Robinson fydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Canwr y Byd yng Nghaerdydd rhwng Mehefin 10fed – 18fed. Cer amdani Jess, rydym tu ôl i ti gant y cant!

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.com |
| (Newyddion Tabernacl) | Y Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Annalyn Davies*

## Croeso

Pan es i ar daith fawr i Ganada ac America nôl yn yr wythdegau cynnar, deuthum ar draws nifer fawr o bethau newydd ac anghyfarwydd. Maent rhy niferus i'w rhestru, ond o ran cyfarchiad mewn siopau, bwytai a gwestai, dyma'r tro cyntaf i mi glywed rhywrai yn dweud "you're welcome." Pryd bynnag fyddech yn rhoi diolch am rywbeth, dyma fyddai'r ymateb yn ddi-eithriad. Mae'n golygu cymaint yn fwy na "mae'n iawn" yn tydi? Mae yna dipyn o ystyr ymhlyg yn y gair "croeso."

Dyma fi'n nawr felly yn rhoi ystyriaeth i'r gair "croeso." Yn fy nhŷb i, ond efallai mod i'n dangos ffafriaeth, mae yna rywbeth arbennig iawn am y "croeso Cymreig." Mae'n dwymgalon iawn ac yn ddidwyll hefyd ac ar yr aelwyd, yn ddi-eithriad mae'n cynnwys dished o de a chacen. Pan yn croesi'r ffin o Loegr i Gymru, fe welwch yr arwydd "Croeso i Gymru" ac mae hynny'n dweud y cyfan.

Bob dydd Iau, dros fisoedd y gaeaf, fe sefydlodd Cyngor Tref Sanclêr brosiect yn y Gât, Sanclêr o'r enw *Croeso Cynnes.* Cafwyd grant gan Gyngor Sir Caerfyrddin i weithredu "Hwb Cynnes" ar gyfer unigolion oedd angen cyfle i ddod at ei gilydd a chael dished dwym a chlonc gyda ffrindiau. Mi brofodd yn llwyddiannus iawn gyda phawb a ddaeth yno yn gwerthfawrogi'r croeso a'r gwmnïaeth. Sylweddolwyd cymaint oedd Cofid wedi amddifadu ein cymunedau ohono a bod yna ddyhead fawr am gymdeithasu eto a chael clonc. Er bod y cynllun dan nawdd y Cyngor Sir wedi dod i ben, mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu ei barhau nes daw caffi yn ôl i'r Gât. Mae croeso i chi alw fewn.

Mae Cymru wedi ei neilltuo i fod yn Genedl Noddfa i ffoaduriaid a rhai sydd yn ceisio lloches, gan estyn croeso iddynt. Mewn cyferbyniad i fwriad llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n bwriadu i'w hanfon i Rwanda a gwynebu tynged yn waeth efallai na'r hyn maent wedi'i adael. Medrwn bod yn falch o'n cenedl groesawgar.

Mi wyddoch am ein prosiect ni ym Methlehem Newydd, Pwlltrap Sanclêr sydd wedi'i enwi yn Tŷ Croeso. Wedi ei blethu i fewn i'r gair "Croeso" mae gyda chi agosatrwydd; parch; cariad a'r dymuniad i ymestyn allan gan estyn gwahoddiad i bawb i ymuno. Onid felly ddylai fod ymhob eglwys?

Gadewch i ni fod yn ymwybodol o'r holl elfennau uchod wrth i ni groesawu pobl i fewn i'n heglwysi. A oes yna fwy medrwn ei wneud i sicrhau eu bod yn wir yn teimlo gwresogrwydd ein croeso? Gwenu, ysgwyd llaw, cynnal sgwrs. Sicrhau bod gair a gweithred yn cyfleu y croeso gorau posib iddynt. Dyna yw ein braint a dyna oedd dymuniad ein Harglwydd Iesu - estyn allan i bawb gyda chroeso gan ddangos cariad a cheisio bod o gymorth iddynt.




Dymuniadau gorau i bawb o fro'r Cardi Bach sy'n cystadlu ac yn cymeryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin yn Llanymddyfri.

Mai 29ain - Mehefin 3ydd

# *I’ch diddori* gan John Arfon

## Manion John Arfon

Fe saif Owain Glyndŵr ar ei ben ei hun ymysg arwyr hanes Cymru yn hyn o beth - na cheisiodd unrhyw fardd ganu marwnad iddo.  A hynny am fod pawb yn credu mai dros dro’n unig y diflannodd a’i fod i atgyfodi’n llawn dicter pan ddeuai awr angen ei wlad.  O’i ddydd ef ei hun hyd heddiw, enw grymus fu ei enw ef yng Nghymru; ni thyciodd unrhyw ymgais i’w bortreadu fel penlleidr neu herwr digyfraith erioed i ddiffodd fflam cariad ei genedl ato na’i hanwyldeb o’i goffadwriaeth. I’r Cymro ym mhob oes ar ei ôl, bu Owain Glyndŵr yn arwr cenedlaethol; ef yn wir fu’r cyntaf yn hanes ei genedl i ddenu teyrngarwch ewyllysgar Gogledd a Deheudir, Dwyrain a Gorllewin, Gwynedd a Phowys, Deheubarth a Morgannwg.  Cyfiawn yw ei alw’n dad cenedlaetholdeb Cymru heddiw.

(Yr Athro John Edward Lloyd)

---

Gwaith yw’r peth mwyaf yn y byd, felly dylem gadw tipyn ohono ar gyfer yfory.

---

“Beth sy’n annog lladrad”, gofynnodd yr athro. “Newyn” atebodd un disgybl.  “Eiddigedd”, meddai un arall.  “Gwastraff ”, meddai’r trydydd. Atebiad y pedwerydd disgybl oedd y gorau - “Y rhai  hynny sy’n prynu nwyddau wedi eu lladrata.“

---

Unwaith eto y mis hwn rhaid datgan ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd yn yr ardal sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.  Blin oedd gennym glywed am farwolaeth Syr Eric Howells. Meadow View, Llanddewi Efelfre ac hefyd am Gary Richards, Heol Y Gogledd, Hendygwyn. Maddeuwch imi os rwyf wedi gadael unrhyw rai eraill allan.

---

**Dyma atebion cwrosw a chwilrif Mawrth**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | X | O | X | X |
| O | O | X | X | O | X |
| X | X | O | O | X | O |
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 9 | 3 | 1 | 7 | 5 | 4 | 8 | 2 |
| 5 | 1 | 7 | 2 | 4 | 8 | 3 | 6 | 9 |
| 2 | 4 | 8 | 6 | 9 | 3 | 5 | 7 | 1 |
| 8 | 2 | 5 | 3 | 6 | 4 | 1 | 9 | 7 |
| 9 | 3 | 4 | 7 | 8 | 1 | 6 | 2 | 5 |
| 7 | 6 | 1 | 5 | 2 | 9 | 8 | 4 | 3 |
| 1 | 7 | 9 | 4 | 3 | 6 | 2 | 5 | 8 |
| 3 | 8 | 6 | 9 | 5 | 2 | 7 | 1 | 4 |
| 4 | 5 | 2 | 8 | 1 | 7 | 9 | 3 | 6 |

**Dyma ddau arall i’ch difyrru**


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | O | | | X | |
| X | | | | | |
| | | X | | X | |
| O | | | | | |
| | | | O | | X |
| | O | X | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | | 3 | | | | |
| 8 | | | | | | 1 | | 7 |
| | | 9 | 4 | 1 | 2 | | | 6 |
| | | | 7 | | | 6 | 9 | 4 |
| | | | | | 3 | 7 | | |
| 2 | 6 | | | | | | 5 | |
| | 4 | | 5 | | | | | |
| | | | 3 | 4 | | | 2 | 5 |
| 1 | 3 | | | | | | 6 | |

**Dyma ddau bôs i'ch diddori y mis hwn**

**Y cyntaf ohonynt yw croesair**

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren




**Ar Draws**

1. Byw heb rai bwydydd yn ystod y Grawys. (8)
5. Cael ysgytiad i'r system (4)
9. Gwaelod coeden. (5)
10. Nerfus i fod yn aml doreithiog. (7)
11. Merch hynaf Laban yn gallu bod yn hael. (4)
12. Un yn caru ei wlad fel yn yr anthem. (8)
14. Siglo dysg yw crynu. (6)
15. Cusan o gwmpas pwmp heb ei ddechrau sy'n fawr.(6)
18. Llywodraethu neu reoli gwlad. (8)
20. Ergyd a thrawiad ar ddrws efallai. (4)
23. Rhaid torri'r plisg i fynd at hwn. (7)
24. Y marw yn wahanol o lawer. (5)
25. Ymdroi mewn lle coediog. (4)
26. Cawn ddod ynghyd yn y cwrdd. (8)

**I Lawr**

1. Crefu neu erfyn. (5)
2. Pysgod Nefyn. (7)
3. Egni sy'n mynd yn ddrutach pob dydd. (4)
4. Mis o'r flwyddyn. (6)
6. Eiddew. (5)
7. Esmwyth neu gyfforddus. (7)
8. Ai yw danfon yn wirion o drybeilig ? (7)
13. Hafn a geir os bydd un yn gadael y sir nesaf i Gernyw. (7)
14. Ysu Tomi i drosi i ymddwyn yr hyn nad ydyw. (7)
16. Disgrifiad Hogiau'r Wyddfa o Lanberis. (7)
17. Lle i gleifion. (6)
19. Erlid neu erlyn. (5)
21. Diferiad byr o law neu gesair. (5)
22. Bwyd angylion Duw ? (4)

**Dyma'r ail bôs**


Tybed a fedrwch weithio allan gwerth y llythrennau , A, B, C, a D yn y pôs isod

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A | B | C | D | |
| A | A | A | B | 148 |
| C | D | D | D | 165 |
| C | C | A | B | 160 |
| 156 | | 155 | | |

## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Cynhelir cyfarfod Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda ar Nos Sul, 11eg Mehefin am 5 o'r gloch yn festri Capel Nebo, Efailwen. Pwrpas y cyfarfod fydd trefnu taith gerdded 2023, dewis elusennau a threfnu digwyddiad ar gyfer trosglwyddo'r arian a godwyd. Gobeithio y cawn ni gynrychiolaeth dda o'r capeli i gyd yn y cyfarfod.

I'r rhai ohonoch sydd ddim yn gyfarwydd â Chymdeithas Capeli Bro Hywel Dda, dyma fwy o wybodaeth amdani. Dechreuwyd y Gymdeithas hon ddiwedd y 1960au, yn gasgliad o dros ugain o gapeli'r fro. Nod y Gymdeithas yn syml yw i godi arian tuag at dair elusen bob blwyddyn a hynny trwy gynnal taith gerdded flynyddol. Mae cannoedd o filltiroedd wedi eu cerdded a miloedd ar filoedd o arian wedi cael ei godi dros gyfnod o bum deg mlynedd. Eleni fydd taith rhif 55! Felly, gapeli'r fro, cofiwch anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod er mwyn sicrhau hir oes i waith elusengar y Gymdeithas.



## Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Mae mis arall wedi mynd heibio a braf yw gweld bod y Gwanwyn wedi'n cyrraedd. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel.

Braf yw gweld bod nifer ohonoch wedi ymaelodi â'r Clwb 200 oddi ar y rhifyn diwethaf. Hyfryd yw gweld rhestr yr aelodau'n cynyddu!

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-


Don ac Eirlys James, 21 Parc Llwyn Celyn, Pwll-Trap
Nesta Rees, Penybryn, Heol Bethlehem, Pwll-Trap
Celt a Shân Nicholas, D/O Penybryn, Pwll-Trap
Cian Llŷr Rees, Parc yr Arfau, Heol y Gorllewin, Hendýgwyn
Delyth Owens, Cartref Uchaf, Crymych
Elgar a Rose Saer, 10 Park Street, Hendýgwyn
Rhythwyn ac Ann Nicholas, Hafan-Deg, Tegryn
Delyth a John Evans, Crud y Wawr, Pwll-Trap
Sheila Thomas, 12 Stryd y Santes Fair, Hen Dý Gwyn
Merched y Wawr, Cangen Hen Dý Gwyn
Rhiannon Thomas, 4 Llys Coed, Llangynin
Beca a Tomos, 20 Cefn Maes, Rhiw'r Ostrey, San Clêr
Nansi a Nel, 2 Burlington Terrace, Caerdydd
Owen a Beryl Gibbin, Aweldeg, Heol y Gogledd, Hendýgwyn
Jean Jones, Talar Wen, Efailwen
Jean Jones, Talaf Wen, Efailwen
Kay James, 3 Lôn Fair, San Clêr
Gerwyn Jones, Bryn Pedyll, Cynwyl Elfed
Elfed Owen, Lan, Cefn y Pant
Haydn Evans, Taf, Llanglydwen
Eurfyl a Jill Lewis, Lluest, Llanglydwen
Elen a Tomos Lewis, Lluest, Llanglydwen
Tony a Meinir Eynon, Penbompren, Cwm Miles
Buddug Nelson, 2 Plas y Milwr, Heol y Priordy, Caerfyrddin
PJD a NW Jones, Ar y Banc, Heol Abergwili, Caerfyrddin
EM Davies, Y Tý Coets, Llanbedr Pont Steffan
Ann Thomas, Min y Ddôl, 8 Bro Derwen, Clunderwen
RW Williams, Bryn Eithin, Bryn Iwan

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Ebrill:-

£20 - 595 - Paul Lewis, Minyrawel, Llangynin
£10. - 459 - Tegwyn Williams, Rhyd-y-Gors, San Clêr

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel, *Rhian.*

# Cornel Llên




Mae cyfrol newydd o farddoniaeth gan Hywel Griffiths, sy'n enedigol o Langynog, wedi ei chyhoeddi. Dyma a ddywed gwefan Gwales " Yn y casgliad newydd hwn, mae'r bardd o Aberystwyth yn cyffwrdd â sawl thema sy'n agos iawn at ei galon – o'r argyfwng newid hinsawdd a chenedlgarwch i'r profiad o fod yn dad a threigl amser." Mae cerddi ynddi yn cyfeirio at ardal ei blentyndod, y Sioe Tair Sir a, hefyd, cywydd croeso Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr. Hyfryd yw'r cerddi i goffau ei Anti Lil o Langynog ac i'w nai, Cian Hedd. Cyflwyna'r gyfrol i'w blant Lleucu a Morgan fel hyn:

Rwy'n ddeugain oed eleni,
A dyma 'nyled ichi:
Rwyn cael eich cwmni chi eich dau
A theimlo'n iau nag ydwi.

Cyfrol i fwynhau pori ynddi. *Beti-Wyn James*
Pris: £8.95




**CACEN IOGWRT**

(Defnyddiwch y carton i fesur gweddill y cynhwysion)
Un carton iogwrt naturiol (150gram)
Dau garton siwgwr
Un carton olew llysiau
Tri carton o flawd S.R.
Un llwy de o essence almond
Dau wy mawr

DULL - Cymysgwch y cyfan gyda'i gilydd yn dda a'i bobi mewn tun bara dau bwys.
Coginiwch ar wres 150°C am 1 ¼ awr.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469


W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth ar gyfer mis Mai. Gobeithio y byddwch chi'n eu mwynhau.
Pob lwc, *Albie*

**GEIRFA**

**Cwblhewch y brawddegau gan addasu'r geiriau mewn cromfachau:**

| | |
|---|---|
| Bu Ffred yn ……………………………….'r tŷ drwy'r bore. | (glan) |
| Mae'r bwyd yma'n …………………………..iawn. | (halen) |
| Mae'r dyffryn yn un ………………………………. | (ffrwyth) |
| Rhoddir y gwobrau drwy ……………………….Mr Jones. | (hael) |
| Trwy ……………………y bachgen, collwyd cyfle gwych | (esgeulus) |
| ……………..i Gymru oedd marwolaeth y bardd ifanc. | (colli) |
| Credir mai…………………oedd yn gyfrifol. | (hen) |
| Mae ……………………..ar bob aelwyd hapus. | (cysurus) |
| Mae Ffred yn rhoi pwys mawr ar ………………. | (glan) |
| 'Deuparth ……………………yw ei ddechrau. | (gweithio) |
| Ceir ……………………ym myd natur yn y Gwanwyn. | (adfywio) |
| Dymunodd yr athrawes bob …………………………i'r plant. | (llwyddo) |
| Gellir gweld cariad at ……………..yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. | (prydferth) |
| Glywaist ti am ……………………y milwr? | (dewr) |
| Does dim rhaid i ti fod mor ………………………… | (beirniad) |
| Cefais i fy synnu pan welais i'r ………………………………. | (tlawd) |
| Doedd dim ……………………yn y gystadleuaeth. | (teilwng) |
| Pwy sy'n ……………………i bwy? | (ateb) |
| Maen nhw am gael eu ………………………… | (rhydd) |
| Ychydig iawn o nadredd ……………………..sy 'na. | (gwenwyn) |


ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Aeth nifer o'r gangen i gerdded yn Hendygwyn gyda changhennau eraill yr ardal a chael diwrnod wrth eu bodd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar Ebrill 18fed yn Yr Hen Ysgol. Llywyddwyd gan Eileen.

Cafwyd adroddiad manwl gan Eileen o weithgareddau'r flwyddyn. Defnyddiodd prosiect Jill, sef "Cerdded, cerdd a chynefin" fel sylfaen i ddisgrifio'r gweithgareddau gan ychwanegu cymdeithas a chymdeithasu. Adlewyrchodd gweithgareddau'r flwyddyn y rhain a, hefyd, bu rhai o'r siaradwyr gwadd yn ehangu ein gorwelion. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith, hefyd perchnogion a staff yr Hen Ysgol am eu croeso a'u caredigrwydd bob amser. Cafwyd adroddiad gan Lilwen, y trysorydd, yna aed ati i ethol swyddogion am y tymor nesaf.

Penderfynwyd newid noson cyfarfodydd i **AIL Nos Fawrth y mis.**

Dilynwyd y Cyfarfod Blynyddol gan Gyfarfod Cyffredinol lle cafwyd cyfle i gynnig syniadau am raglen y tymor nesaf. Mwynhawyd lluniaeth blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Rhian Williams ac fe'i henillwyd gan Rhian White.
Bu rhai o aelodau'r gangen yng Nghinio'r Llywydd yng Ngwesty Nantyffin a mwynhau mas draw.

Cynhaliwyd noson i feirniadu eitemau cystadleuaeth Radi Thomas ar Fai 1af yn Neuadd Llanddarog. Llongyfarchiadau unwaith eto i Lilwen ar ei threfniant blodau a phob lwc iddi yn y rownd derfynol yn y Sioe Fawr.

---

## Cangen Gronw

Ar brynhawn dydd Iau, Ebrill 27ain daethom at ein gilydd i groesi draw trwy dirwedd hyfryd Cwmbach a Gelliwen, i le bach o'r enw Rhyd y Garreg Ddu ger Talog. Dyma gartref Anthony Rees a David Thomas ac yma, yn y cornelyn hyfryd yma o orllewin Sir Gâr, mae'n nhw wedi datblygu cynnyrch arbennig iawn – sef Jin Talog!

Roedd yr ymweliad ar y gweill yn ôl yn 2020, ond fe ddaeth Covid 19! Ac felly dair blynedd yn ddiweddarach, dyma ni!

Cawsom groeso cynnes iawn gan Anthony. Cawsom wydraid o'r jin i ddechrau ac yna aeth yn ei flaen i egluro sut y mae'n nhw yn ei gynhyrchu. Yr hyn sy'n allweddol i'w llwyddiant yw'r sylw y mae'n nhw wedi ei roi i'r manylyn lleiaf, gan gynnwys dod o hyd i'r ffrwythau gorau – sef ffrwyth y ferywen, a defnyddio dŵr o'r ffynnon adre. Ffrwyth eu hymchwil manwl yw siap arbennig y boteli, a'r geiriad effeithiol sy'n cael ei roi ar bob potelaid, yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Yn wreiddiol o Lanelli ac wedi ail afael yn ei Gymraeg, dywedodd Anthony bod David, sy'n dod o Gaerdydd, wedi dysgu Cymraeg, ac fe enillodd e'r teitl 'Dysgwr y Flwyddyn' yn Eisteddfod Amgen 2021. Llongyfarchiadau gwresog iddo!
Cawsom brynhawn hwylus a diddorol iawn, cyn mynd ymlaen i gael swper yn y Corvus yn Sancler.



Aelodau'r gangen yn blasu Jin Talog

Yn dilyn ymweliad â Jin Talog teithiodd pawb i'r Corvus yn San Clêr am swper. Ond cyn hynny cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol. Ar ôl croesawu pawb a chael ymddiheuriad wrth Llinos, llongyfarchwyd Nansi ar ei phenblwydd yn 98 oed a diolchwyd i Wenfys am baratoi basged o flodau iddi ar ein rhan. Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth Nansi. Llongyfarchiadau i Mary a Gwynlais Phillips bydd yn dathlu eu Priodas Aur ar Fai 26ain. Dymunwyd yn dda hefyd i Tegwen bydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Awst 14eg. Diolchwyd i bawb am eu hymdrechion i'r bore coffi. Diolch arbennig i Jean Lewis

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

am ei rhodd hael. Penderfynwyd sut i rannu'r arian. Gwnaeth nifer o'r aelodau gerdded yng nghwmni eraill ar y daith gerdded "Cerdded, Cerdd a Chynefin". Diolch iddynt a diolch i'r rhai ddaeth i gefnogi ac i'r rhai wnaeth ddarllen cerddi. Bore a phrynhawn i'w gofio.

Diolchwyd i swyddogion y tymor a penderfynwyd cadw i'r un drefn o lywyddion. Diolchwyd yn arbennig i'n ysgrifennydd Eirwen Robinson am ei gwaith dros nifer o flynyddoedd. Bodlonodd Mary Phillips a Meinir Eynon rannu swydd ysgrifennydd am y tymor nesaf ac roedd Meirwen Evans yn barod i gadw ymlaen fel trysorydd. Treuliwyd gweddill yr amser yn trafod syniadau am raglen blwyddyn nesaf. Bydd y swyddogion yn cwrdd i drefnu yn y dyfodol agos. Diolchwyd i staff Corvus am bryd blasus iawn.

Ar Sadwrn, 29ain o Ebrill, aeth naw o'r aelodau i ginio'r Llywydd, Jill Lewis yng Ngwesty Nantyffin. Cafwyd prynhawn bendigedig gyda 240 Ferched y Wawr yn bresennol.

## Cangen Hendygwyn ar Daf

Ym mis Mawrth cynhalion ni ein cawl Gŵyl Ddewi blynyddol yng Nghanolfan Hywel Dda. Daeth criw da ohonom ni ynghyd i fwynhau mwy nag un bowlen blasus o'r cawl cig oen ardderchog a baratowyd gan Christine a Tracy, sy'n rhedeg Caffi Hywel Dda. Ond, roedd lle gan bawb i'r danteithion melys a gynigiwyd i ni gyda'n disied o de hefyd!

Diolchwyd yn gynnes i'r ddwy ac wedyn fe ddechreuodd y cystadlu! Fe geson ni Eisteddfod Ffug – rhannwyd pawb yn dri tîm i orffen diarhebion, i ganu hwiangerddi ac i ddarllen darn heb atalnodau. Mefin a Eilir enillodd cystadleuaeth adnabod diarhebion ac fe geson nhw wy Pasg fel gwobr. Bu raid rhannu'r gwobrau eraill achos doedd dîm llawer i ddewis rhyngddyn nhw!! Bu llawer o chwerthin a dwli ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Ym mis Ebrill ceson ni'r pleser o gwmni Natalie Jones o Sancler. Mae Natalie'n wyneb adnabyddus erbyn hyn oherwydd ei swydd ar S4C. Bu'n siarad i ddechrau am y syndod mae pobl yn ei gael ar ôl gwneud y prawf D.N.A. Efallai nad ydym yr hyn ry'n ni'n feddwl! Yna aeth ymlaen i olrhain hanes ei mamgu yn dod draw o Jamaica yn ystod cyfnod y Windrush a'r anhawsterau bu raid iddyn nhw, fel teulu, eu gwynebu. Ceson ni brynhawn mor ddiddorol yn ei chwmni hynaws ac fe agorwyd ein llygaid i lawer o wirioneddau nad ydym bob amser yn barod i'w gwynebu.

Ann Lewis a Carole Young oedd yn gyfrifol am wneud y te a buon ni'n dewis ein lleoliad i'r trip fis nesa'.

## Cerdded, Cerdd a Chynefin

Cerdded, Cerdd a Chynefin yw prosiect ein Llywydd Cenedlaethol ac, am fod Jill Lewis yn byw yn yr ardal, fe benderfynodd 5 cangen a chlwb gorllewin Rhanbarth Caerfyrddin ddod at eu gilydd am daith gerdded o ryw 4 milltir.

Ar fore godidog o Wanwyn cyfarfu bron i ddeugain yng Nghanolfan Hywel Dda, Hendygwyn cyn cerdded heibio cartref y cyfansoddwr William Mathias i safle Abaty Hendygwyn. Yno, cafwyd hanes hynod ddiddorol yr Abaty gan Margarette Hughes (a dysgu llawer!) ynghyd â chyfle i fwynhau'r wlad ar ei gorau. Cerdded nôl i'r Hendygwyn i fwynhau cinio yng Nghaffi Canolfan Hywel Dda lle roedd mwy o aelodau wedi ymuno. Cafwyd gair gan Jill a Jane Morgan a hyfryd oedd cael eu cwmni. Yna cyflwynwyd cerddi oedd â chyswllt â'r ardal gan Meinir a Susan o Gangen Gronw, Marian a Iona o San Cler, Margarette ac Ann o Hendygwyn a Margaret o Fro Alma.

Diolch i Jill a Jane am roi o'u hamser i ymuno gyda ni, i Margarette am hanes yr Abaty ac i Iona am wneud y trefniadau i gyd.



Cerddwyr yn yr Abaty



Margarette Hughes yn rhoi peth o hanes yr abaty

# Merched y Wawr

## Gair gan y Llywydd Cenedlaethol

Gyda'r haf yn brysur agosau, fe fydd fy nghyfnod fel Llywydd Cenedlaethol yn dirwyn i ben yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol a gorchwyl bleserus iawn fydd trosglwyddo'r awennau i Geunor Roberts, ein Is Lywydd.

Mae'r ddwy flynedd wedi hedfan heibio ac mae wedi bod yn fraint ac anrhydedd enfawr i lywio'r Mudiad yn ystod y cyfnod hwn, gyfnod hynod ac heriol ar adegau.

Yn anffodus, bu'n rhaid i mi dynnu yn ôl o amryw o ymweliadau a gweithgareddau yn ystod y Gwanwyn oherwydd afiechyd ond dau achlysur a fydd yn aros yn y cof am amser maith iawn yw Ciniawau'r Llywydd. Bob blwyddyn fe gynhelir Cinio'r Llywydd, un yn y De ac un yn y Gogledd. Rwyf mor falch fy mod wedi llwyddo i fynychu'r ddau. Yn gyntaf cefais gwmni oddeutu 160 o aelodau ar gyfer Cinio'r Gogledd ac hynny yng ngwesty Deganwy Keys yng Nghonwy. Wel am leoliad anhygoel, cafwyd cinio arbennig iawn ynghyd â chwmni hyfryd a thywydd braf. Roedd hi mor braf i gyfarfod ag aelodau'r Gogledd a mwynhau adloniant bendigedig gan Sian a Sian.

Ar ôl teithio i fyny mor bell ac arfordir y Gogledd, doedd na ddim un ffordd yr oeddwn yn mynd i golli Cinio'r De! Yn ffodus iawn, doedd dim eisiau teithio ymhell y tro hyn ac roedd hi'n braf iawn i gael cynnal Cinio'r De ar stepen y drws fel petai a hynny yng Ngwesty Nantyffin yn Llandysilio. Unwaith eto cafwyd pryd o fwyd blasus, cwmni 230 o aelodau ac adloniant hyfryd gan ferched ifanc o ardal Eglwyswrw, sef Esyllt Thomas, Ffion Thomas, Sara Hazelby a Sarah Jane Absalom yn cyfeilio. Cafwyd prynhawn hyfryd ac roedd yr awyrgylch, fel yn y Gogledd yn hapus a phawb yn gyffrous i gwrdd â hen ffrindiau a chymdeithasu. Braf iawn oedd cael cwmni nifer fawr o aelodau canghennau Sir Benfro a changhennau lleol ardal y Cardi Bach a Sir Gâr. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth ac am ddod.

Yn ystod y ddwy ginio rhaid oedd cyflwyno ychydig o eiriau a'r hyn y gwnes rannu oedd y pethau hynny sydd wedi amlygu eu hunian i fi o ran Merched y Wawr a hynny yn ystod y cyfnod anodd ac heriol ers dechrau'r pandemig.

Y peth cyntaf sy'n sefyll allan yw'r ffaith bod Merched y Wawr wedi gorchfygu'r rhwystrau yn sgil Cofid ac wedi llwyddo i gynnal yr holl weithgareddau Cenedlaethol dros y we a zoom yn benodol, a hynny drwy gydol y cyfnod. Yn ogystal â'r gweithgareddau Cenedlaethol llwyddwyd hefyd i ddarparu amrywiaeth eang o sesiynau rhithiol, megis Clwb Gwau, Cyrsiau Crefft, Sesiynau coginio, a sgyrsiau difyr gan nifer fawr o westeion.

Yn sgil hyn y sylweddolais cymaint y gwnaeth Merched y Wawr ymestyn allan at yr aelodau, ac yn wir, sut y bu i'r Mudiad fod yn gefn ac yn gysur i nifer fawr o'r aelodau. Gyda'r Cynllun Ffonio ffrind a ddechreuodd yn ystod Llywyddiaeth Meirwen, ynghyd â'r tudalennau cymdeithasol megis Curo'r Corona'n Coginio a Chrefftio, bu'r cyfan heb amheuaeth yn gysur ac yn gynaladwyaeth i nifer. Sicrhawyd bod wastad rhywun yno i gael sgwrs gyda'r aelodau ac i'w cynorthwyo.

O ran profiad personol, mae Merched y Wawr yn sicr wedi bod yn gefn i mi ac mae'r ymdeimlad o berthyn a'r gefnogaeth sydd wedi dod ar draws Cymru wedi bod o gysur mawr.

Rwy'n siwr fod nifer helaeth o'r aelodau yn teimlo yr un fath ac yn cytuno bod ein diolch a'n dyled ni i Tegwen, staff y Swyddfa, a'r swyddogion hyrwyddo a datblygu yn fawr iawn. Rydym wir yn perthyn i fudiad arbennig ac unigryw iawn, a byddai bywyd yn llawer tlotach hebddo. Os nad yn aelod, da chi, ewch amdani. Does neb yn rhy ifanc nac yn rhy hen i ymuno a Merched y Wawr!

Rwy'n swnio braidd fel bod fy amser fel Llywydd ar ben yn barod, ond mae dal nifer o bethau i edrych ymlaen iddynt. Cyn hir fe fyddwn yn ymgynnull ym Machynlleth ar gyfer yr Ŵyl Haf a'r Cyfarfod Blynyddol. Diwrnod arall llawn bwrlwm a hwyl ac un o uchafbwyntaiu'r flwyddyn yn sicr. Yna wrth gwrs fe fydd Sir Gaerfyrddin a Llanymddyfri yn ein galw i Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr wedyn yn Llanelwedd ac yn cael ei noddi gan Sir Morgannwg ac yna i fyny i Ben Llyn a Boduan ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol wrth gwrs. Digon o weithgareddau felly i'n cadw yn brysur, a chyfleoedd gwych eto i gwrdd â chi gyd.

*Pob hwyl, Jill.*

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Ras yr Iaith**
22.6.23-San Clêr
Ar yr 20fed o Fehefin bydd Ras yr Iaith yn digwydd ar draws Cymru gyfan, gyda phawb yn rhedeg ar yr un amser. Bwriad y ras yw annog a hybu'r iaith Gymraeg yn ein Cymunedau ar draws Cymru gyfan. Mae'n gyfle da yn ogystal i bawb ddod at ei gilydd i wneud ymarfer corff ac i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.
Mae'r ras yn cael ei chynnal mewn sawl tref, ac mae Menter Gorllewin Sir Gâr wedi penderfynu cynnal ein ras ni yn San Clêr. Mi fydd ysgolion yr ardal ac unigolion y gymuned yn ymuno ar y daith, wrth gerdded a rhedeg gyda ni. Mae croeso i chi ymuno yn yr hwyl a dod i San Clêr i'n cefnogi.

**Gŵyl Canol Dre 8.7.23**
Mae Gŵyl Canol Dre yn digwydd eleni ar y 8.7.23 ar gaeau Parc Myrddin yng Nghaerfyrddin, gyda digwyddiadau a gweithgareddau di-ri o 11yb tan 8yh.
Dewch i fwynhau amrywiaeth o berfformiadau ar y ddwy lwyfan. Ar y brif lwyfan, cewch gyfle i glywed grwpiau ac artistiaid megis Gwilym, Eden ac Yws Gwynedd ac ar y Llwyfan Berfformio, bydd perfformiadau gan ysgolion lleol ynghyd â sioeau gan Siani Sionc a Mewn Cymeriad.

Yn yr amryw o bebyll o gwmpas yr ŵyl, bydd sesiynau stori, gweithgareddau creadigol, cyflwyniadau, gweithdai dawns a llenyddol a llawer mwy yn rhan o'r arlwy. Bydd cyfle i blant a phobl ifanc fwynhau yn yr ardal chwaraeon a bydd amrywiaeth o stondinau yna'n gwerthu nwyddau. Gallwch hefyd weld y ceisiadau fydd wedi dod i'r brig yn ein cystadleuaeth gelf. Bydd dewis helaeth o fwyd a diod yn ogystal â bar.
Diolchwn yn fawr i'n prif noddwyr Cyngor Tref Caerfyrddin, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Castell Howell a Tai Wales & West am noddi ardaloedd yr ŵyl.
Dewch yn llu i fwynhau diwrnod llawn sbort a sbri, a'r cyfan AM DDIM!

**Gŵyl Fach Newy' 24.6.23 Castell Newydd Emlyn**
Yn dilyn ymgynghoriad gyda phobl Castell Newydd Emlyn a'r ardal i weld beth oedd eu dyheadau am ddigwyddiad cymdeithasol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn falch i gyhoeddi y byddwn yn cynnal Gŵyl Fach Newy' ar Ddydd Sadwrn 24ain Mehefin ym mharc y dref a gweithgareddau amrywiol yn ystod yr wythnosau blaenorol. I ddechrau'r ŵyl byddwn yn cynnal Cystadleuaeth Gelf yn agored i blant ac oedolion ac mi fydd yr enillwyr yn cael eu harddangos am bythefnos yn llyfrgell y dref.

Byddwn yn trefnu Helfa Drysor o amgylch y dref a bydd pobl yn gallu ei gwneud yn eu hamser eu hunain yn ystod wythnos yr ŵyl. Bydd y ras hanesyddol, Ras Bryndioddef, yn cael ei chynnal ar nos Fawrth 20fed Mehefin ac yna bydd yr ŵyl ei hun yn digwydd ar ddydd Sadwrn, 24ain Mehefin, lle bydd cystadleuaeth gwisg ffansi, mabolgampau, gemau, peintio wyneb a mwy. Mae'n mynd i fod yn ddiwrnod i'r teulu cyfan ac mi fydd croeso cynnes i bawb. Os hoffech gyfle i wirfoddoli gyda'r fenter yn yr ŵyl, mae croeso i chi gysylltu gyda nia@mgsg.cymru

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.

*Canolfan Gymunedol Alma*

## Mabolgampau Blynyddol


**Nos Wener, 23ain o Fehefin 2023**

**ar gae Pantgwyn, Alma, Meidrim SA33 5PS**

i ddechrau'n brydlon am 6.00yh
Rhaglenni ar werth neu wrth y gât

Mynediad £2.00
Plant oed cynradd am ddim
Lluniaeth ar gael / Fan byrgyrs yn bresennol
Rasys ar gyfer pob oedran

*Croeso cynnes i bawb*
Cyswllt: Elinor Evans - 01994 484538

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed


Ffôn:
01994 240857

# MEIDRIM

**Henoed**
Croesawodd Glyn James y Parch Wyn Maskell a oedd wedi dod i'n diddanu. Wel, am amser da!! Roedd wedi dod a'i allweddellau a bu'n chwarae llinellau cyntaf o ugain cân. Ein tasg ni oedd dyfalu enwau'r caneuon ac weithiau'r cyfansoddwr. Cawsom brynhawn bendigedig a phob un ohonom wrth ein bodd. Diolchwyd iddo gan Meirion Morris.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Ieuenctid Meidrim ar Fehefin 6ed pan fydd Lenny ac Angela Marie o Drel-ech yn dod i siarad â ni.
Wrth y te - Brian ac Eirwen Davies, Jan Harbour, Steph Davies a Sara Ellis. Raffl - Glen Lewis, Glyn James, Danny Newton a Jennifer Price.

# GELLYWEN

**Ainon**
Mae'n braf cael cyhoeddi ychydig o newyddion cadarn-haol yma yn Ainon ar ôl y llu o brofedigaethau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Mewn pwyllgor ar ôl yr oedfa fore Sul, Ebrill 30ain, fe gytunwyd yn unfrydol i ethol ein trysorydd, Margaret Rees a Patsy Lewis ein his-ysgrifennydd yn ddiaconiaid ac ymddiredolwyr Ainon, a braf croesawu dwy wraig ffyddlon a galluog i'r sedd fawr.

Ar ôl yr oedfa aethom fel cynulleidfa i lawr i Westy Nant y Ffin i fwynhau cinio blasus gyda'n gilydd.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**. Diolch i'r Parchgn Alwyn Daniels a Huw George am eu gwasanaeth yn ystod mis Mai.

Mehefin 4: Cymundeb - Mr. Dafydd Evans - 10.30
11: Parch Huw George - 2.00

Cofion i Margaret Phillips, Waunfawr sydd wedi bod yn yr ysbyty ers tipyn o amser ond yn falch dweud ei bod adref erbyn hyn. Rydym yn gweld eisiau'r aelodau sy'n methu dod i'r oedfaon.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau a dymuniaadau gorau i Gwynlais a Mary Phillips, Merlais ar ddathlu eu Priodas Aur ar 26ain o Fai.

**Diolch**
Dymuna Nansi Evans ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a blodau ac i bawb a fu'n galw ar achlysur ei phenblwydd yn 98 oed; hefyd i aelodau Ramoth am eu dymuniadau da ac i Ferched y Wawr, Gronw am y basged hyfryd o flodau o waith Wenfys Rees.

# BLAENWAUN

**Moriah**
Cynhaliwyd oedfa undebol ar fore Sul, 7fed o Fai pan ymunodd Eglwysi Bryn Iwan a Blaenycoed. Ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan oedd yn gwasanaethu a chanolbwyntiodd ar brosiect Cymorth Cristnogol o helpu pobl Malawi sydd wedi dioddef yn ofnadwy o stormydd, a'r ardal bron heb ddim ar ôl. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o weithio gyda'n gilydd i helpu pobl llai ffodus na ni. Mwynhawyd te a chacen wedi'r oedfa a hyfryd oedd cael cyfle i gymdeithasu.

Trefn yr oedfaon:
Mai 21. Cymun 2 o'r gloch - Arwel Evans
Mehefin 4. Cymun 1.30 - Parchedig Gareth Ioan
Mehefin 18. 10-30 y bore - Elonwy Phillips

Trist yw cofnodi marwolaeth ein haelod hynaf Glyndwr Davies, gynt o Llys Meini, Llangynin. Roedd wedi cael gofal arbennig ers dros bedair mlynedd yng Nghartref Garreg Lwyd. Bu farw ar ddydd Sul, Ebrill 30ain. Roedd Glyndwr yn ddiacon ac ymddiriedolwr ac roedd yna le arbennig yn ei galon i Eglwys Moriah. Cynhelir ei angladd breifat yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth ar ddydd Mercher, 17eg Mai am un o'r gloch. Cydymdeimlwn yn fawr ag Ann, Howell a'r teulu ehangach. Bydd yna fwlch mawr yn y teulu ac yn Eglwys Moriah.

# RHYDWILYM


Croesawu y Parch Judith Morris i oedfa Gymun wnaethom ar Sul, Mai 7fed. Diolch iddi am ei gwasanaeth bendithiol iawn.

Oedfaon
Mai 21ain: 10.30 - Parch Peter M Thomas
Mehefin 4ydd: 2.00 Cymun - Parch Ken Thomas

Gwnaeth Beryl longyfarch y Parch. Judith Morris a fu yn llwyddianus yn ennill cadair Eisteddfod Maenclochog.


**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.**
**Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**
Ffôn: 01994 419230

G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

Gwnaethom estyn croeso adre i Eluned Jones ar ôl iddi dreulio chwe mis ym Mhatagonia. Yr oedd wedi mwynhau yng nghwmni hen ffrindiau.
Estynnwyd croeso hefyd i nifer o ffrindiau oedd wedi troi i mewn i'r gwasanaeth.

Yr oedd Llinos Edwards a Gwenda Williams yn dathlu pum cenhedlaeth o'r teulu ar ôl geni Yuna fach yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt hwy, Arwyn a Nia, a phob bendith i'r un fach.

# SAN CLER

Penblwydd hapus i Glyn Rees, Lôn Hafren, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Ebrill 17eg.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Dewi Griffiths, Cartref Clyd, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.

# PWLL TRAP



Mae Janet Lewis, Pennant, wedi ymddeol o'i gwaith yn gwarchod plant, wedi gwneud hynny ers 40 mlynedd. Dyma lun o Janet gyda'r plant olaf fu dan ei gofal. Dymunwn ymddeoliad hapus iddi.

Croeso nôl i Owain Evans, Crud y Wawr, sydd adref o Awstralia am fis o wyliau.

Bu Mrs. Lynne Hengry mewn garddwest ym Mhalas Buckingham fel rhan o ddathliadau'r coroni. Cafodd wahoddiad yn gymeradwyaeth am ei gwaith gwirfoddol dros y blynyddoedd.



Llongyfarchiadau i'r efeilliaid Fern a Daisy Mackay ar eu llwyddiant yn gymnasteg. Mewn cystadleuaeth i ddathlu'r Coroni daeth Daisy yn 2ail a Fern yn 3ydd.

**Bethlehem Newydd**
Cafwyd oedfa ar Ebrill 23ain yng ngofal yr aelodau â'r gweinidog yn cyflwyno'r myfyrdodau.
Ar Ebrill 30ain cafwyd oedfa yng nghwmni Mr Lyndon Lloyd.
Oedfa Gymun yng ngofal y gweinidog, y Parch Rhodri Glyn Thomas gynhaliwyd ar Fai 7fed. Mr Dai Rees fu wrth yr organ ym mhob oedfa.
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr oedfaon.

**Tŷ Croeso**
Mae Tŷ Croeso yn dal i gefnogi sawl elusen.
Parheir i dderbyn dillad at Coda Ni ac mae ymateb da wedi bod i apêl y Lloches Menywod yng Nghaerfyrddin am dywelion mawr neu "sheets" gwely. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Wendy yn y Lloches yn cyfleu eu diolchgarwch am y gefnogaeth ac yn benodol am yr wyau Pasg a gyfranwyd ac am y tywelion a sheets a dderbyniwyd hyd yma. Mae'r casgliad hwnnw yn parhau.

Mae Ysgoldy Bethlehem yn cael ei ddefnyddio nawr gan Blant Dewi i dderbyn cyfraniadau. Mae Tŷ Croeso yn cefnogi'r elusen hon sy'n cefnogi teuluoedd difreintiedig sydd â phlant ifainc, a hynny yn lleol. Gofynnir am fatiau newid, shampw/ hylif bath a thywelion, cewynnau (nappies) a bagiau cewynnau, dillad babanod i fyny at 3 mis, bibs, sanau, muslins, blancedi (heb grosio â thyllau), dillad wedi eu gwau. Hefyd, apelir am offer megis cadeiriau uchel, cots, prams a matiau chwarae.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

Gellir rhoi unrhyw gyfraniadau i Annalyn neu eu gadael yn Pethau Olyv ac mae'r diolch yn fawr i Pethau Olyv am gynnig derbyn y cyfraniadau.



Dyma lun o rai o'r pethau a dderbyniwyd eisoes tuag at Bwndel Babi Plant Dewi

# LLANBOIDY

**Gwellhad Buan**

Dymunwn yn dda i Doreen Eynon sydd yn ysbyty Glangwili yn derbyn triniaeth, gobeithiwn y bydd adref cyn bo hir. Hefyd Margaret Phillips Waunfawr sydd wedi treulio amser yn ysbyty Glangwili ond yn gwella ac wedi dod adref. Dymuniadau gorau i'r ddwy.

**Chwaeroliaeth**



I gloi tymor y gaeaf, aeth yr aelodau allan am fwyd i Westy Nantyffin ar brynhawn Mercher, Ebrill 19eg. Croesawodd y llywydd, Wenfys Rees pawb i'r cinio. Ar ôl y gwledda, bu pawb yn cymdeithasu ac am fod Norah'n dathlu ei phenblwydd yn 93 oed ar y diwrnod, cyflwynodd Wenfys basged o flodau iddi ar ran yr aelodau. Diolchodd Norah iddynt am eu haelioni. Diolchodd Wenfys i'w hysgrifenyddes, Delyth Dent ac i'r aelodau am eu cefnogaeth ar hyd y tymor.

**Sefydliad y Merched**

Daeth yr aelodau ynghyd ar Ebrill 13eg o dan lywyddiaeth Denise Harris. Cyflwynodd y gwesteion, sef Darren a Jacqui o San Cler sydd yn rhedeg 'boarding kennels' ac yn hyfforddi cŵn i fynd allan i'r Affrig i ddal helwyr anghyfreithlon allan yn y wlad honno, testun diddorol iawn. Diolchodd Sue Jones iddynt. Bu Denise a Valerie yng ngynhadledd Cymru o'r mudiad a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, cafwyd crynodeb o'r gynhadledd gan Denise. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Rosemarie a Mary Jarvis.

## Priodas Aur



Llongyfarchiadau cynnes i Gwynlais a Mary Phillips, Merlais, Llanboidy ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar Mai 26ain. Llawer o gariad mam a dad a diolch am bopeth oddi wrth Angharad, Buddug a Barry.

**CRONFA GOFFA CHRIS JOHN**

Cynhelir Noson Bingo ac
Arwerthiant o nwyddau amrywiol
yng Nghlwb Cymdeithasol Llanboidy
ar nos Wener, Mehefin 23ain am 8 o'r gloch

Os hoffech gyfrannu gwobrau i'r bingo, raffl
neu'r arwerthiant, cysylltwch gyda
Jeff Kedward ar 07971 555998

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

# LLANDYSILIO

**Cydymdeimlo**

Danfonwn gydymdeimlad dwys i deulu Syr Eric Howells, Fron Farm, Llanddewi. Tadcu annwyl i Rebecca Pearce- Roblin, Gareth Roblin, a'r teulu oll.
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Anne Thomas, Heddwyn, Llandysilio. mam a mam yng-ngyfraith annwyl i Cheryl a Denzil, Denise a Simon, Neil a Sian, mamgu a hen famgu gariadus.

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i'r canlynol:
Kate Phillips - a oedd yn 50 oed ar 16eg o Ebrill.
Berian Owen a oedd yn 80 oed.
Ann Murrow, Nantyffin yn 70 oed.

## Penblwydd hapus yn 90 oed



**Penblwydd hapus iawn yn 90 oed** i Nansi James, Manordre, Clunderwen. Cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd a'i ffrindiau.

Dyma Nansi gyda'i hwyrion.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Catrin a Simon Attwell ar enedigaeth mab annwyl, ar 4ydd o Fai. Ŵyr i Sandra a Huw Morris, Llandysilio.
....hefyd i Luke Roberts a Catrin Owen, ganwyd mab ar 3ydd o Fai. Ŵyr i Sharon a Davey Roberts, The Old Barn.
....hefyd i Darren Rees, a Beanie Hammersley ar ddod yn datcu a mamgu. Ei mab Iestyn yn dad i ferch fach.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Scott Robinson, Parc y bryn ar lwyddo yn ei Farathon cyntaf o 26 milltir yng Nhasnewydd yn ddiweddar. Da iawn wir.

**Dartiau**



Llongyfarchiadau i dîm dartiau yr Angel, am ennill yng gyngrair adran 2.

## Cynrychioli Cymru yn BBC Canwr y Byd Caerdydd 2023

Jessica Robinson, Parc y bryn, Llandysilio bydd yn cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd 2023.
Bydd y gystadleuaeth yn cymryd lle yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd rhwng dydd Sadwrn, 10fed Mehefin a dydd Sul, 18fed Mehefin. Bydd Jess yn cystadlu yng Ngwobr y Datganiad gyda'r cyfeilydd Llŷr Williams, yn y Coleg ar nos Sadwrn, 10fed Mehefin mewn cyngerdd sy'n dechrau am 7.30yh. Yn Neuadd Dewi Sant bydd ei chyngerdd gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ar nos Lun, 12fed Mehefin yn dechrau am 6 o'r gloch.
Mae modd archebu tocynnau i'r digwyddiadau i gyd trwy wefan Neuadd Dewi Sant <https://www.neuaddewisantcaerdydd.co.uk> neu trwy galw rhif ffôn 02920 878444. Llongyfarchiadau a phob lwc iddi.

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi a helpu gyda'r Bore Coffi, dydd Llun, 8fed o Fai. Roedd yn fore llwyddianus iawn, codwydd tua £300 tuag at y Neuadd.
Cynhelir Pwyllgor y Neuadd ar yr ail nos Lun o bob mis, yn Neuadd Llandysilio am 7.30yh. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 12fed o Fehefin. Byddai'n braf eich gweld chi yno.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*
Ffôn: 01994 230474

**CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO**

Neuadd Llandyslio, Llandysilio,
Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY
Ar Agor: pob bore
9.00 yb - 12.00
Arweinydd: Liz Lewis
Rhif Ffôn: 07760135392
neu: cmllandysilio@outlook.com
*Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716*

**Cylch Ti a Fi Llandysilio**

I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr
Pob prynhawn Mercher
(heblaw ail Mercher
o bob mis)
12.00 - 1.30yp
£2.50
Neuadd Llandysilio


### Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio



Ym mis Mai, bu'r merched yn brysur yn gwneud Macrame Plu, o dan arweiniad Janet Parcell. Noson hyfryd.

Cyfarfod nesaf ar 5ed o Fehefin yn y rhandiroedd yn Arberth am 7.15 o'r gloch.

**Penblwydd hapus** i Elwyn Harries, 4 Maes y Bryn, Llandysilio a fydd yn 80 oed ar 29ain o Fai. Dymuniadau gorau oddi wrth Beryl a'r teulu.

# NEWYDDION BLAENCONIN

### Y Gymanfa Bwnc 2023

Oddeutu 1822 daeth yr Ysgol Bwnc - y 'Gatics' – i gryn fri ym mywyd crefyddol yr ardal.
Cynhaliwyd yr Ysgol Bwnc mewn tŷ a elwid Patshyn Bach, cartref Thomas Beynon, clocsiwr wrth ei alwedigaeth ac, yn ddiweddarach, yn Llwyndyrys a Llwyncelyn.

Gwahoddwyd gweinidog y Ffynnon, y Parch. Benjamin Davies, i baratoi 'Holwyddoreg' ar 'holl bynciau'r ffydd Gristionogol' a châi'r holwyddoreg hon le amlwg yn yr ysgol – llawlyfr ar gyfer y Gymanfa Bwnc !

Byddai'r aelodau yn dysgu pennodau o'r beibl a rhannau o'r holwyddoreg ar y côf ac yna, byddai'r Ysgol Bwnc yn ymweld â Rhydwilym a Ffynnon. Roedd hyn i gyd yn digwydd cyn bod 'Blaenconin' yn bod !

Byddai Bedyddwyr y fro yn addoli yn Rhydwilym a'r Ffynnon ond yn dod ynghyd i Tŷ Hen yn rheolaidd ac yno cedwid Ysgol i ddysgu darllen. Cynhelid 'Ysgol Sabothol' yng Nghlanrhyd, Tŷ Hen a Dyffrynconyn.
Byddai Bedyddwyr y fro yn dod ynghyd bob nos Wener yng Nghrugyderi a chynhaliwyd 'Cyfeillach' bob nos Fercher yn Nhŷ Hen a Dyffrynconyn bob yn ail.


Dyma hanes a chefndir y Gymanfa Bwnc yn yr ardal hon. Dyma'r gwaddol a drosglwyddwyd i'n gofal. Braint ac anrhydedd i ni yw dod ynghyd i gadw Gŵyl ... Gŵyl a sefydlwyd 201 o flynyddoedd yn ôl !

Testun y Gymanfa Bwnc eleni yw'r 'Gwynfydau' sef adnodau agoriadol y bumed bennod o efengyl Mathew.
Yn ystod y Suliau diwethaf, mae'r dosbarth wedi cael budd a bendith wrth drafod cynnwys y bennod ac maent yn edrych ymlaen at Sul y Gymanfa. Cynhelir y Gymanfa Bwnc eleni ar yr 28ain o Fai am 10.30 y bore.

Newyddion da a ddaeth i'n bro,
mae'r Pwnc ar ddyfod unwaith to !
'Dewch atom' yw'r gwahoddiad taer,
i drafod gwirioneddau'r Gair.

### Anturiaeth yr Arfordir

Mae'r anturiaethwyr wedi ail-gychwyn yr orchest fawr o gerdded ar hyd bob cam o arfordir Sir Benfro.
Ar yr ail Sadwrn o Fai, dechreuodd yr anturiaethwyr gerdded o Draeth Mawr, Tyddewi i Borth Clais – tua 6 milltir.






*the* LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES1


**RUSSELL THOMAS**
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Roedd cerdded ar ddiwrnod braf yn fendith a chafwyd pleser a boddhad wrth gerdded y llwybyr heibio i Ynys Dewi ac ymlaen i Borth Stinan gan gyrraedd Porth Clais cyn cinio.

Bydd lluniau o’r daith yn ymddangos mis nesaf. Bydd yr Anturiaeth nesaf, o Borth Clais i Gaerbwdi dydd Sadwrn, 27ain Mai.




Ac yna, bydd yr anturiaethwyr dewr yn cerdded o Gaerbwdi i Solfach dydd Sadwrn, 10fed Mehefin.




### Taith Gerdded Llyfrau Llafar Cymru

Aeth criw o bobl ar daith gerdded hirfaith for Gwener, 19eg Mai o’r Ganolfan Bywyd Gwyllt yng Nghilgerran yr holl ffordd i Aberteifi i godi arian tuag at waith Llyfrau Llafar Cymru. Diolch i Ann Lewis am drefnu’r daith.

### Bore Coffi Ratifa

Daeth y ffyddloniaid ynghyd ar yr ail Sul o Fai i gofio Ratifa. Diolch i Maureen a Geraint am baratoi’r lluniaeth

**Trefn oedfaon**

Dydd Sul, 28ain Mai: Y Gymanfa Bwnc - 10.30

Dydd Sul, 4ydd Mehefin: Oedfa Bregeth - 1030

Dydd Sul, 11eg Mehefin: Bore Coffi Ratifa - 10.00
Oedfa gymun - 1030

# TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Alan ac Eirwen Jones, Tower Hill, sydd yn dathlu eu Priodas Aur. Pob dymuniad da iddynt.

Penblwydd hapus i Elan Williams, Sunny Hill sydd yn dathlu penblwydd arbennig.

Cydymdeimlwn â Marc a Bethan James a’r merched, Rhos y Gawnen, ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu ym mis Ebrill.

.... hefyd â Mrs Edith Ridley, 1, Caerwenog, sydd wedi colli merch yng nghyfraith, Jenny o Cilgerran ar ôl salwch.

Gwellhad buan i Kevin Bowen, Barley Mow, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

.... hefyd i Glyn Davies, Llety Teg (Rhydygors) sydd wed cael damwain ar y fferm.

Pob dymuniad da i bawb o’r ardal sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri ar ddiwedd y mis.

Pob lwc i bobl ifanc yr ardal sydd yn sefyll arholiadau allanol yn ystod y mis nesaf.

### Sefydliad y Merched

Yn ein cyfarfod mis Mawrth gwnaethom ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda phryd o fwyd traddodiadol a ddarparwyd gan yr aelodau. Yn dilyn, trafodwyd y raglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yr ydym yn awr yn cwrdd yn y prynhawn o 12.30 i 3 o’r gloch ar yr ail ddydd Mawrth bob mis.

Ni chafwyd cyfarfod ym mis Ebrill oherwydd salwch a rhai ar wyliau ac ym mis Mai byddwn yn croesawu Maureen Davies fydd yn gwneud cardiau o bapur memrwn (parchment paper).

# LLANGYNIN

### Cydymdeimlad

Mae nifer o aelodau wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf yma ac rydym yn cydymdeimlo yn fawr â nhw i gyd.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Janet a Bryan Jones a’r teulu, Trem y Cwm, ar farwolaeth chwaer Janet yn ddiweddar, sef Margaret Hallwood o Arberth.

Cofiwn hefyd am Granville a Mary Davies, Angorfa, a Don a Susan Phillips, Gorwelion a’u teuluoedd ar

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

farwolaeth cyfnither Granville a Don, sef Anne Thomas o Landysilio.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Glyndwr Davies ddydd Sul, Ebrill 30ain, yn 94 oed. Roedd Glyndwr a Doris, ei ddiweddar briod, wedi byw yn Llys Meini, Llangynin, am flynyddoedd lawer cyn i Glyndwr symud i Gartref Gofal Y Garreg-Lwyd yn Sanclêr. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Ann a Howell a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

**Penblwydd hapus**
Llongyfarchiadau i Sandra Davies, Erw Ddôl a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 65 oed ar Ebrill 28ain. Penblwydd hapus iawn Sandra!

**Clwb 60 Llangynin**
Gwefreiddiwyd pawb yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar bnawn Iau, Ebrill 13eg pan wnaeth Mrs Angela Skymm o Landdarog ein diddori. Roedd ei chyflwyniad am 'Hetiau dros y degawdau' yn eli i'r galon a chawsom wledd yn gwrando arni a gweld yr holl hetiau oedd ganddi wedi casglu dros gyfnod o amser.

Arddangosodd hetiau menywod yn bennaf o bob lliw a llun, yn fach ac yn fawr, yn flodau a ffwr a phlu ac eraill, gyda rhai hetiau dynion hefyd a soniodd am yr hanesion ynghlwm a'r hetiau amrywiol. Roedd y chwerthin yn y neuadd yn dystiolaeth o fwynhad pur ac ymateb pawb yn amlygu cymaint oeddent wedi mwynhau'r prynhawn. Diolch iddi ac i John ei gŵr am helpu gyda'r cario. Y cyfarfod nesaf fydd y Cyfarfod Blynyddol ar y 10ed o Fai.

# CWMBACH

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Ann a Howell Davies, Llŷr a Rhys a'r teuluoedd Fronuchaf ar farwolaeth tad a thadcu sef Glyndwr Davies gynt o Drefach, Blaenwaun a Llysmeini, Llangynin. Bu'r angladd preifat ym Mharc Gwyn.

# HENLLANFALLTEG

Penblwydd hapus i Eleri a Gethin Gibbin, Fferm Drefach - y ddau yn dathlu penblwydd yn 50 oed ym mis Mai.

Cydymdeimlwn gyda theulu Bryngwelltyn ar farwolaeth Margaret Hallwood o Arberth.

# EFAILWEN

**Cyflwyno siec**




Mae teulu'r diweddar Iris Morris wedi cyflwyno siec o £2200 i Uned Ddydd Cemotherapi Ysbyty Glangwili er cof annwyl amdani, fel gwerthfawrogiad o'r gofal a'r cyfeillgarwch a dderbyniodd yno.

Diolch o waelod calon i deulu, ffrindiau a chymdogion Iris a gyfrannodd tuag at y gronfa, ac am bob arwydd o gydymdeimlad.

## Hoelion Wyth – Cangen Beca Beca

**Taith Ddirgel**
I orffen tymor 2022-23 trefnodd Eurfyl daith ddirgel i'r aelodau. Daeth bws Cwm Taf gyda Tudur wrth y llyw i'n casglu o Gaffi Beca a theithiom tuag at Penblewin cyn troi i gyfeiriad Caerfyrddin ac yna am Abertawe o gylchdro Pensarn. Erbyn hyn roedd ambell aelod yn meddwl bod noson mewn clwb nos yn Abertawe i fod! Ta waeth, yn fuan ar ôl cyrraedd Crosshands sylweddolon mae cyrchfan y daith oedd pencadlys y cyflenwyr a'r dosbarthwyr bwyd Castell Howell.
Yno i'n cyfarfod oedd un o'r cyfarwyddwyr, Martin Jones mab Brian Jones, sefydlydd y cwmni. Arweiniwyd ni i ystafell gyfarfod cyn cael te/choffi ac ambell beth melys o wneuthuriad Castell Howell wrth wylio fidio byr oedd yn adrodd hanes sefydlu'r cwmni.

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

Sefydlwyd y cwmni yn 1988 ar fferm y teulu, Castell Howell, Trevaughan. Ers hynny mae'r cwmni wedi datblygu i fod yn un mawr a phwysleisiodd Martin fod hyn i gyd wedi ei wireddi drwy gymorth rheolwyr da ac aelodau o staff ffyddlon a brwdfrydig.

Yn dilyn y croesawu gofynwyd i ni wisgo ein siacedi llachar cyn dechrau ein taith o gwmpas y safle. Cawsom weld ychydig o'r swyddfeydd cyn mynd i'r stordai, cefn un lori a threulio ychydig o eiliadau yn yr oergell. Braf oedd dianc o'r fan honno cyn mynd allan i'r haul a chrwydro o gwmpas fflyd o loriau'r cwmni, cyn dychwelyd i'r ystafell gyfarfod a chael cyfle i holi ambell gwestiwn.

Diolchodd Eifion i Martin am y cyflwyniad, yr holl wybodaeth difyr a'r daith o gwmpas y safle. Roedd wedi bod yn agoriad llygad i bawb. Anelu am y gorllewin wedyn a galw fewn i gael pryd hyfryd o fwyd ar ein ffordd adref yn Nhafarn y Butchers, Llanddarog. Diolch i Eurfyl am drefnu'r daith a diolch i Tudur am ein tywys yn ddiogel.



Aelodau'r Hoelion yng nghwmni Martin Jones

# BANCYFELIN

### Taith Gerdded yr ofalaeth



Daeth 18 o aelodau a chyfeillion Capeli Cana, Bancyfelin a'r Priordy ar daith gerdded gofiadwy iawn ar ddydd Llun, 1af o Fai. Fe'n harweiniwyd ar y daith i Gae'r Meini a Foel Drigarn gan Eurfyl Lewis. Cawsom ddiwrnod i'w gofio, golygfeydd godidog a chwmni ardderchog. Diolch i Eurfyl am ein harwain ac i bawb a ddaeth ar y daith.


### Gibeon

Cynhaliwyd angladd Lloyd Sharp ym mynwent Gibeon ar Ebrill 13eg. Cydymdeimlwn a'i wraig, Joan, a'r teulu oll ar eu colled.

Cynhaliwyd oedfa dan ofal y gweinidog ar Ebrill 16eg. Cymerwyd rhan hefyd gan Meirion, Iona a Beti-Wyn a Hilary fu'n cyfeilio. Cafwyd gwasanaeth bendithiol.

Bydd plant yr Ysgol Sul yn rhan o'r Côr Ysgolion Sul a fydd yn cymryd rhan yn Oedfa Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yng Nghapel y Tabernacl, Llanymddyfri, ar fore Sul, Mai 28ain am 10 o'r gloch. Maent wedi bod yn brysur yn mynychu ymarferion yn Ysgol Bro Dinefwr ar brynhawniau Sul yn ystod y mis.

Pob lwc i'r plant a'r ieuenctid a fyddant yn cystadlu yn yr Eisteddfod yn yr unawd, partion dawns ac unsain cynradd a, hefyd, Elen gyda Ysgol Bro Myrddin. Mae Llion, hefyd, wedi cymryd rhan gyda Phrosiect 23.




AWEN TEIFI

Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn

Ffôn: 01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES

- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!

Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559

CANOLFAN REHAB CENTRE

therapi chwaraeon clinigol

ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

# LOGIN

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Huw a Non Rees, Coynant ar enedigaeth merch fach o'r enw Mili Haf, wyres gyntaf i Kevin a Wendy Rees a nith fach i Carwyn a Lisa. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mr Arwel Evans a'r Parchedig Judith Morris am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mehefin 4ydd: Hedd Ladd Lewis - Cymun am 10.30
18fed - Natalie Morgan - Cwrdd am 2 o'r gloch

Gorffennaf 16eg: Alun Lenny - Cymun am 10.30
30ain - Catrin Isaac Thomas - Cwrdd am 10.30

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Buddug Davies ar ddod yn famgu. Ganwyd bachgen bach o'r enw Bleddyn Gruff Dafi Bryant i'w merch Mared a'i phartner Nigel yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

....hefyd i Sian a Puw Davies ar enedigaeth ŵyr arall ar Mai 10fed, ganwyd mab bach o'r enw Tomi Glyn i'w merch Marged a'i phartner Ben. Dymuniadau gorau i chi gyd fel teulu.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf â diffuant i Mary Llewellyn, Garth ar farwolaeth ei brawd Rhys yn ddiweddar.

## Canolfan Ffynnonwen

Bu'r Noson Cawl a Chân ar nos Wener Ebrill y 7fed yn un llwyddianus iawn. Gwnaeth aelodau'r pwyllgor sosbeni o gawl, bara brith a pice ar y maen ac roedd yn bleser gweld y byrddau. Wedi bwyta digon, cawsom adloniant gan Beti, Sian a Mari yn canu a Bertie Brynderi yn chwarae'r trwmped.

Cafwyd hwyl wedyn yn cydganu gyda Ceirios wrth yr allweddellau. Cawsom dipyn o sbort a sbri a chyfle arall i fwynhau cwmni ein gilydd. Diolchodd Roy Llewellyn, y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol ar Nos Fawrth, 9fed Mai am 7.30.

# CWM MILES

Cafwyd oedfa fendithiol ar Sul Ebrill 30ain o dan arwiniad Nigel Davies. Cynhelir y Cymun nesaf ar Fai 28ain pan fydd Arwel Evans yn gwasanaethu.

# LLANDDEWI

**Bethel**

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod yn ddiweddar sef Eric Howells. Bu Eric yn ffyddlon i Bethel trwy ei fywyd a bu yn drysorydd y capel am dros 40 mlynedd. Bu hefyd yn weithgar ym mywyd pentref Llanddewi trwy ei oes a bu hefyd yn weithgar ym myd gwleidyddiaeth am ddegawdau.
Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Edward, Judith a Janet a gweddill y teulu yn eu colled.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Mae diwrnod y Cyrddau Blynyddol yn ddiwrnod mawr yng nghalendr pob capel. Ar y diwrnod hwn byddwn yn dathlu pen-blwydd yr eglwys ac felly roedd hi eleni eto yn y Tabernacl, Hendy-gwyn.

Y Parch. Irfon Roberts, Aberteifi oedd y pregethwr gwadd eleni a chafwyd pregeth ardderchog ganddo wedi selio ar Lyfr Esther yn yr Hen Destament. Yn y prynhawn cafwyd oedfa deuluol gydag Irfon Roberts, y plant, ieuenctid a'r rhieni yn cymryd. Gyda llaw roedd y capel yn 149 mlwydd oed ac edrychwn ymlaen at ddathliad mawr flwyddyn nesaf os byw ac iach.



Cyrddau Blynyddol 2023 dan arweiniad y Parch. Irfon Roberts, Aberteifi


GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan atgyweirio ceir




Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH

**Crefftau Cymreig**
***Gemwaith Rhiannon***
***Crisial Brenhinol Cymru***
***Crefftau Lleol***
***Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau***
***Crymych, SA41 3QF***
***FFÔN: 01239 831230***



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Mae Grŵp Trafod y Beibl wedi bod yn cwrdd yn 'hybrid' ers yr haf gyda chyfle i bobl ddod i Ganolfan Hywel Dda yn Hendy-gwyn neu ymuno trwy zoom.

Mae rhai aelodau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac rydym yn dymuno gwellhad buan iddyn nhw.

Mae nifer wedi bod yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i:
Doreen Brown a oedd yn 70 oed yn ddiweddar.
...hefyd i Eleri Gibbin a oedd yn 50 oed ar ddiwrnod cyntaf Mai. A hefyd i'w gwr Gethin Gibbin a oedd yn 50 oed pedwar diwrnod yn ddiweddarach!
...hefyd un arall fu yn dathlu yn ddiweddar oedd Judith Davies a fu yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed.


Doreen Brown yn 70 oed


Judith Davies yn 60 oed


Eleri a Gethin Gibbin yn 50 oed




Llongyfarchiadau mawr i Bleddyn a Josie Thomas ar enedigaeth Dewi yn ddiweddar.

Pob dymuniad da wrth bawb yn y Tabernacl.

Croeso i bawb ymuno gyda ni unrhyw Sul gydag Ysgol Sul y plant am 9.00 bob bore Sul ac oedfa wythnosol yn y capel bob Sul.

## Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn

I orffen y tymor eleni ar y 4ydd o Fai, aeth yr aelodau ar daith ddirgel a drefnwyd gan Mel Jenkins, ein swyddog adloniant. Ar ôl teithio ychydig dros 60 milltir cyraeddasom Distyllfa Penderyn, cartef y wisgi Cymreig enwog, sydd wedi ei leoli ar droed Bannau Brycheiniog.

Roedd trefniant ymlaen llaw i ni gael gweld y broses o gynhyrchu'r wisgi a chawsom groeso mawr gan ein tywysydd a fu am ryw awr yn ein harwain o amgylch ac yn egluro'r cyfan.

Lansiwyd Wisgi Penderyn ar Ddydd Gŵyl Dewi 2004. Mae Penderyn yn cynhyrchu gwirod haidd brag ei hunain sydd, wedi iddo aeddfedu, yn cael ei gydnabod ledled y byd fel un o'r wisgis brag sengl gorau. Rhoddir y rhan fwyaf o'r gwirod mewn casgenni i'w heneiddio yn ein seleri. Gyda buddsoddiad, gwaith caled, rhoi sylw i bob manylyn, yr haidd gorau, distyllwyr arbenigol a'r casgenni derw Americanaidd gorau, mae Wisgi Penderyn yn enwog ym mhedwar ban byd gan ennill nifer o wobrau ar y ffordd. Yn ddiweddar maent wedi sicrhau marchnadoedd newydd mewn gwledydd fel Tsieina, Rwsia ac Awstralia.

Yn 2014, drwy fuddsoddiad mawr, ehangwyd y busnes a gosodwyd dwy ddistyll arall yn y safle. Cyn hyn roedd y broses o gynhyrchu i gyd ar un safle ond agorwyd ail safle rhyw ddwy filltir i ffwrdd ble, erbyn hyn, mae'r wisgi yn cael ei foteli a'i ddosbarthu. Mae'n broses hir a mae'r wisgi yn medru cymryd o dair i bum mlyneddi









aeddfedu yn y casgennau cyn y bydd yn barod i'w foteli a'i yfed.

Mae Penderyn yn cynyrchu sawl math o wisgi brag ac ar ddiwedd y daith aeth y tywysydd â ni i'r 'bar' lle cafodd pawb oedd yn dymuno, gynig blasu dau math o'r wisgi. Roedd pawb wedi mwynhau'r ymweliad yn fawr iawn a diolchodd Claude James, y cadeirydd i'r tywysydd am y croeso arbennig.

Nôl i'r bws a mynd dros heolydd cul Bannau Brycheiniog i gyfeiriad Llandeilo lle'r oedd pryd o fwyd blasus wedi ei drefnu. Cyn mynd adre, diolchodd Claude i Mel Jenkins am drefnu'r cyfan a hefyd i'r swyddogion i gyd am eu gwaeth yn ystod y tymor. Edrychwn ymlaen i'r cyfarfod nesaf ym mis Medi.



Yr aelodau yn y bar yn distyllfa Penderyn

## Clwb 100 Hywel Dda

Mis Mawrth
1af - Jackie Davies
2ail - Sian Puw
3ydd - Ardion Doors
4ydd - Rose Rickards

Gwobrau Pasg
Allsortz
Jane Thomas.

Mis Ebrill
1af - Aeres Jones
2ail - Enigma
3ydd - Russel Davies
4ydd - Lorna Hooper

Mis Mai
1af - Menna Richards
2ail - Lowri Wyn Lewis
3ydd - Heledd Ebsworth
4ydd - Tony Eynon.

## Cylch Meithrin Hywel Dda

Enillwyr Clwb 200 Mis Ebrill

1af - £40 - Rhif 82 - Luca a Mila

2ail - £20 - Rhif 71 - Simon Allen

3ydd - £10 - Rhif 104 - Alys John

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r Clwb 200 am £12 y flwyddyn i gefnogi Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda? Allwch dalu trwy BACS i Clwb Cylch Meithrin, côd didoli 56-00-42, rhif y cyfrif 37227696, eich enw chi fel cyfeirnod. Diolch yn fawr iawn.



Cafodd pawb amser gwych yn ddiweddar ar eu taith i Ganolfan Arddio Tafarnspeit a Plum Tree Tea Rooms. Nawr mae'r plant yn brysur iawn yn garddio nôl yn y Cylch yn plannu popeth a brynwyd, a rydym yn edrych ymlaen at wylio popeth yn tyfu....wedyn gobeithio bydd byrbryd blasus i blant y Cylch! Mae nhw'n mwynhau'r thema Garddio a Byw'n Iach yn fawr iawn.
Diolch o galon i Mr Paul Webb a'r teulu am y croeso cynnes iawn a diolch i Bysiau Cwm Taf, roedd y plant yn gyffrous iawn i fynd ar eu taith bws!

## Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch





Dyma Gareth Edwards, Nigel Phillips a Jayne Phillips yn cyflwyno sieciau o £4378.90 yr un yn ddiweddar. Cyflwynwyd un siec i Mr. Holt, Uned Gofal y Fron, Ysbyty Tywysog Charles Llanelli, a'r llall i Uned Chemotherapy Ysbyty Glangwili.

Codwyd y swm anrhydeddus yma drwy gynnal seiclo noddedig gan aelodau'r côr, te prynhawn ac ocsiwn elusennol "tei ddu" Trefnwyd ac ysbrydolwyd yr ocsiwn a'r te gan Mrs Jayne Phillips.

Bu saith yn seiclo a theithiwyd 360 o filltiroedd dros gyfnod o bedwar diwrnod. Mae £13000 eisoes wedi mynd i Cancr Y Fron Cymru! Da iawn wir!

## Cyngerdd Blynyddol Côr Meibion Hendy-gwyn ar Daf

Roedd pob tocyn wedi ei werthu ar gyfer cyngerdd blynyddol cyntaf Côr Meibion Hendy-gwyn ers y pandemig, wedi i'r cyngerdd yn 2019 gael ei ganslo oherwydd y cyfyngiadau.

Mae hi eisoes wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r côr, gyda 30 digwyddiad yn y 12 mis diwethaf, yn cynnwys recordio cryno ddisg newydd sydd i'w gyhoeddi yn y dyfodol agos.
Y cyngerdd blynyddol yw uchafbwynt y flwyddyn i'r côr, a'r un eleni yn Ysgol Dyffryn Tâf yn un o'r goreuon yn hanes y côr a gafodd ei sefydlu 128 mlynedd yn ôl.

Roedd y tîm cerddorol o dan ofal y cyfarwyddwr cerdd Hefina Jones, y cyfeilydd Owain Lewis a'i ddirprwy Heather Jenkins yn eu helfen wrth gyflwyno rhaglen gyffrous ac amrywiol.

Mewn cyfnod pan fo nifer o gorau yn ei chael hi'n anodd denu aelodau, mae Hendy-gwyn yn ffodus o groesawu chwe aelod newydd yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda dau yn 18 oed, ac roedd mymryn yn llai na 50 aelod ar y llwyfan.

Mae un o'r baswyr Owain Jenkins yn ennill ei le fel unawdydd, a'i berfformiad o "Asleep in the deep" oedd un o uchafbwyntiau'r noson.

Cafwyd cywair gwahanol gan y brawd a chwaer ifanc Talfan a Siriol Jenkins, gyda'u perfformiasd gwych ar y sacsoffôn a phiano jazz. Y ddau'n gyn ddisgyblion Ysgol y Preseli, mae'n nhw bellach yn cwblhau eu hastudiaethau yn Llundain. Ar ôl graddio o Brifysgol Rhydychen, mae Siriol, wedi derbyn gradd Meistr mewn jazz. Mae ei brawd Talfan ym mlwyddyn olaf ei gwrs gradd BA.

Enillydd y Rhuban Glas, y tenor Aled Wyn Davies oedd yr unawdydd. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd yn gwrando arno, yn enwedig wrth iddo berfformio cân boblogaidd Robat Arwyn a Hywel Gwynfryn "Anfonaf Angel".

Mr Stan Phillips oedd llywydd y noson, sydd wedi ymddeol o'r côr yn ddiweddar, ar ôl gwasanaethu fel ysgrifennydd am dros 25 mlynedd.

Diolchodd y cadeirydd Richard Lewis i aelodau'r côr a'r tîm cerddorol am eu hymrwymiad rhyfeddol a'u gwaith caled, gan ddiolch hefyd i'r noddwyr a chefnogwyr y côr.

Mae'r côr yn croesawu aelodau newydd ac mae ymarferion yn cael eu cynnal yn Ysgol Dyffryn Tâf, yn Hendy-gwyn bob nos Iau am 19.30.



Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch

# RHYDYCEISIAID

Pulpud
Pleser oedd cael gwasanaeth y Parchedig Guto Llywelyn yn oedfa'r Cymun Sul, Mai 7ed a diolch iddo.
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Dewi Griffiths, Lôn Hafren, San Clêr, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Tywysog Philip, Llanelli, ac nôl yn ysbyty Glangwili nawr.

Eisteddfod

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BANCYFELIN



Ar ddechrau  Mai eleni bu disgyblion Ysgol Bancyfelin yn dysgu am hylendid bwyd drwy gyfrwng y Sioe Môr-ladron a'r Ffa Ffiaidd. Roedd y disgyblion yn gorfod cynorthwyo  Ceri, Capten Neifion a'r criw ar fwrdd y SWP Sâl i ddod o hyd i'r trysor a chodi melltith Capten Cawl. Llwyddwyd i ddod o hyd i'r trysor ac achub y dydd.

Y Coroni



Diolch i Gyngor Tref San Cler am eu hanrheg o fygiau i ddisgyblion yr ysgol i nodi Coroni'r Brenin Siarl.

# YSGOL BRYNCONIN

**Eisteddfod Gylch**

Llongyfarchiadau i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Clunderwen ar Ddydd Llun, 13eg o Fawrth. Roedd pawb wedi ymdrechu'n galed ac rydym yn browd iawn o waith caled y plant. Llongyfarchiadau enfawr i Deri Nicholas am ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth llefaru i Flwyddyn 3 a 4, i Heti Davies am ddod yn ail yng nghystadleuaeth llefaru i Flwyddyn 3 a 4 ac i Peggy-Anne, Rhys, Tomos ac Wilfred am ddod yn ail agos yn yr Ymgom.

**Eisteddfod Sir**

Llongyfarchiadau i Deri Nicholas am gystadlu yn dda yn y gystadleuaeth llefaru Blwyddyn 3 a 4 yn yr Eisteddfod Sir ar Ddydd Sadwrn, 18fed o Fawrth yn Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun. Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Evelyn, Aurora, Magi, Deri, Poppy, Cynan ac Wilfred am ennill gwobrau llenyddol yn yr Eisteddfod. Braf yw cyhoeddi fod Ysgol Brynconin wedi ennill tlws Mrs Marian Phillips am yr Ysgol a enillodd y fwyaf o bwyntiau yng nghystadlaethau llenyddol Sir Benfro. Dyma'r canlyniadau:

Evelyn Davonish – ail yn y barddoniaeth Bl.2 ac Iau
Aurora Hammersley – trydydd yn y barddoniaeth Bl.2 ac Iau
Magi John – trydydd yn y barddoniaeth Bl.2 ac Iau
Deri Nicholas -cyntaf yn rhyddiaith Bl.3 a 4
Poppy Hammersley – ail yn y rhyddiaith Bl.3 a 4
Cynan Makepeace – ail yn y rhyddiaith Bl.3 a 4
Wilfred Harris – ail yn y rhyddiaith Bl. 5 a 6



**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 5 a 6 a gystadlodd mewn cystadleuaeth gala nofio Dydd Iau, 23ain o Fawrth yng Nghanolfan Hamdden Crymych. Diolch i Miss Davies a Miss Jayne am ofalu ar ôl y plant yn ystod y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i:
Tomos Nicholas – 1af yn y ras strôc flaen
Rhys Morgan – 2il yn y ras strôc cefn
Amelia Barry – 3ydd yn y ras strôc cefn
Alfie Drake, Rhys Morgan, Tomos Morgan ac Wilfred Harris – 3ydd yn y medley

**Twrnament Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i dîm pêl droed yr Ysgol am gystadlu mewn twrnament pêl droed yn Ysgol Bro Preseli ar Ddydd Llun, 27ain o Fawrth. Diolch i Miss Davies, Miss Kim a Mr Sam Harris am hyfforddi'r plant. Fe wnaeth y plant yn dda gan ennill 5 gêm a cholli 3.

**Sioe Ffasiwn**
Cafwyd bore gyffrous ar fore Mawrth, 28ain o Fawrth pan gynhaliodd Dosbarth Emrallt Sioe Ffasiwn i'r Ysgol gyfan. Fel rhan o waith y thema a llyfr 'Gwen fy Mrawd' creuodd plant eitemau o ddillad newydd allan o hen ddillad. Dyma sgil arbennig o ran ail ddefnyddio dillad yn lle taflu i ffwrdd.

**Llongyfarchiadau Joshua!**
Llongyfarchiadau Joshua am ennill gystadleuaeth dylunio carden Pasg i gwmni cyflenwi Hope. Derbyniodd Joshua wobr o Wy Pasg a derbyniodd yr Ysgol wobr ariannol. Diolch i'r cwmni am drefnu y gystadleuaeth.

**Gwasanaeth Diwedd Tymor**
Braf oedd cael cynnal ein gwasanaeth diwedd tymor yn yr Ysgol ar brynhawn Mercher, 29ain o Fawrth. Roedd yn gyfle i glywed plant sydd yn derbyn gwersi offerynnol gyda Clarie Jones yn chwarae eu hofferynnau, yn gyfle i weld unigolion yn perfformio rhai eitemau o'r Eisteddfod a llongyfarchiadau i Holly Phillips am ennill Tlws Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen am ddangos datblygiad gwych dros y tymor.

**Llongyfarchiadau Tomos!**



Llongyfarchiadau enfawr i Tomos Nicholas am gynrychioli Sir Benfro yn ffeinal cystadleuaeth rygbi. Fe wnaeth gystadlu yn Stadiwm Principality ar Ddydd Mercher, 26ain o Ebrill. Dyma brofiad anhygoel ac rydym fel Ysgol yn ymfalchio yn ei lwyddiant

**Eisteddfod Maenclochog**



Braf oedd gweld plant Ysgol Brynconin ar lwyfan Eisteddfod Maenclochog, Dydd Llun 1af o Fai. Llongyfarchiadau enfawr i Magi a Deri am gipio y gwobr cyntaf ac am ennill tlysau her yr Eisteddfod am lefaru. Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Joshua a Poppy am ddod yn gyntaf ac i Cynan am ddod yn ail yn y cystadlaethau Celf a Chrefft. Llongyfarchiadau hefyd i Magi am ddod yn gyntaf, Ezmay a Wilfred am ddod yn ail ac i Peggy-Anne am ddod yn drydydd yn y barddoniaeth. Da iawn chi gyd!

**Celf a Chrefft yr Ysgol**
Braf oedd gweld y neuadd yn llawn dop o waith celf y plant. Diolch enfawr i Mrs Jayne Thomas a ddaeth i feirniadu gwaith Celf ar brynhawn Mercher, 3ydd o Fai a llongyfarchiadau enfawr i Heti Davies am ennill tlws Mr Christopher Thomas.

**Gweithdy cyfansoddi cân – gwaith Siarter Iaith**
Da iawn i Peggy-Anne, Cynan, Deri ac Heti a gynrychiolodd Ysgol Brynconin mewn gweithdy cyfansoddi cân ar Ddydd Mercher, 3ydd o Fai yn Neuadd Bentref Maenclochog. Roedd y gweithdy yma yn rhan o waith Siarter Iaith yr Ysgol a chafwyd cyfle i greu cân am Sir Benfro yng nghwmni y canwr enwog; Mei Gwynedd. Byddwn yn edrych ymlaen i ddysgu'r gân fel Ysgol.

**Wythnos Dysgu Awyr Agored**
Braf oedd cael treulio yr wythnos gyfan allan yn datblygu sgiliau amrywiol adeg wythnos cenedlaethol dysgu yn yr awyr agored ar ddechrau mis Mai. Cafwyd cyfle i ddysgu am gynefin ein hysgol, plannu blodau, gwella a pharatoi ein gardd tawel a chrwydro o gwmpas y pentref i enwi ond rhai o'r gweithgareddau y gwnaethom yn ystod yr wythnos.

# YSGOL BECA

**Croesawu Mrs Roberts**
Hoffwn groesawu Mrs Roberts fel ein pennaeth dros dro newydd. Croeso cynnes i chi i Ysgol Beca. Dyma ambell air oddi wrth Mrs Roberts.

*Hoffwn gyflwyno fy hun fel Mrs Vanessa Roberts - pennaeth dros dro ffederasiwn Ysgol Beca a Bro Brynach. Yr wyf ar hyn o bryd yn Bennaeth yn Ysgol Llys Hywel ac yr wyf wedi ymgymryd yn y cyfrifoldeb ychwanegol. Merch fferm*

*yn wreiddiol gyda llawer o brofiad yn ysgolion bychain o fewn y Sir. Yr wyf yn frwdfrydig i weithio gyda'r holl rhanddeiliaid er lles y disgyblion sydd yn fy ngofal.*

**Croesawu disgyblion newydd**

Croeso mawr i ddisgyblion newydd Ysgol Beca. Yn ymuno â dosbarth Carn Gyfrwy mae Loti, Alun ac Arlo. Yn ymuno â dosbarth Carn Menyn mae Beau ac yn ymuno â dosbarth Cwm Cerwyn mae Reilly. Mae'r disgyblion wedi ymgartrefi yn barod ac yn mwynhau gwneud ffrindiau newydd yn Ysgol Beca.

**Ymweliad PC Llewelyn**





Ar y 9fed o Fai buodd PC Llewelyn yn ymweld â disgyblion yr ysgol gyfan. Cafodd pob dosbarth gyflwyniad arbennig a dysgodd pawb lawer. Diolch yn fawr i chi am eich ymweliad.

**Eisteddfod Maenclochog**

Llongyfarchiadau mawr i Lewis Roberts ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth celf i flwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Maenclochog. Y thema eleni oedd 'Y Fferm'. Da iawn ti!

**Dysgu am bwysigrwydd Gwenyn**

Buodd dosbarth Carn Gyfrwy yn ffodus yn ddiweddar i dderbyn ymweliad oddi wrth 'The Bumbles of Honeywood'. Buodd y disgyblion yn dysgu am fywyd gwenyn a pham eu bod yn bwysig. Diolch yn fawr iawn am eich ymweliad, cafodd y disgyblion brynhawn hwylus.

**Prosiect 23**

Hoffwn fel Ysgol ddymuno pob lwc i Efan ac Euan o flwyddyn 6 sydd yn cymryd rhan ym Mhrosiect 23 ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni. Mae'r ddau wedi bod yn brysur yn ymarfer gyda'r clwstwr dros y misoedd diwethaf ac yn edrych ymlaen i berfformio eu chwedl. Pob lwc i ddisgyblion y clwstwr gyfan!

**Dathliadau 50 yr ysgol**

Byddwn yn dathlu penblwydd yr Ysgol yn 50 eleni ar y 14eg o Orffennaf. Rydym yn awyddus i groesawu'r gymuned, cyn ddisgyblion a ffrindiau'r Ysgol i ddathlu gyda ni. Bydd mwy o fanylion i ddilyn.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Croeso**

Ar ddechrau tymor yr Haf croesawyd 5 o ddisgyblion newydd i'r dosbarth Meithrin. Croeso mawr iddynt oll, a'u teuluoedd, atom. Braf oedd croesawu Mrs Giles yn ôl i'r tim hefyd ar ôl dau dymor o secondiad yn Ysgolion Beca a Bro Brynach fel Pennaeth dros dro.

**Chwaraeon**

Bu bechgyn a merched hŷn yr Ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau pêl droed yr Urdd. Llongyfarchiadau gwresog i dim y bechgyn am lwyddo i ennill y dydd gan sicrhau eu lle yn y rowndiau terfynol cenedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mai.

**Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored**

Bu nifer o'r dosbarthiadau'n manteisio ar y tywydd mwyn yn ystod Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored ar ddiwedd mis Ebrill. Bu'r gweithgareddau'n cynnwys helfa blanhigion, mesur hyd ein cysgodion, arsylwi ar flodau'r Gwanwyn, creu collages gydag adnoddau naturiol, creu mapiau a labelu rhannau'r blodyn ar ddarluniau mawr o sialc.

**Ymwelwyr**

Croesawyd PC Cath i Ddosbarth Pwyll i'w hatgoffa o reolau Diogelwch ar y We.
Daeth Cwmni Theatr ' Mewn Cymeriad' yn ôl atom i gyflwyno hanes Syr Ifan ab Owen Edwards yn sefydlu'r Urdd. Dosbarthiadau Pwyll a Culhwch fu'n mwynhau'r perfformiad.

Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
• Bwyd anifeiliaid
• Ffensio
• Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

Fel rhan o'n gwaith ar Raglen Gwenyn Coed y Mêl, daeth Ffion o 2B Enterprising i'r ysgol i gyflwyno ail stori 'Sgarmes y Cacwn' i ddisgyblion Dosbarth Gwenllian. Bu'r plant yn chwarae gêmau ac yn trafod nodweddion ffrind da. Yna cawsant gyfle i ddefnyddio ansoddeiriau addas wrth greu eu Dwylo Cyfeillgarwch. Hyfryd oedd cael cwmni Helen Morgan hefyd o'r cwmni Obsidian Developments Ltd sy'n ariannu'r fenter.



Hyfryd oedd croesawu Mrs Ruth Evans o elusen Cŵn Tywys ir Ysgol gyda Stephen, sy'n rhannol ddall, a'i gi tywys Crompton. Buodd Stephen yn siarad gyda'r disgyblion am ei anabledd a chafodd y plant gyfle i gyfarfod â'r ci ac i holi cwestiynau.

**Yr Urdd**



Mae nifer o'n disgyblion wrthi'n brysur yn ymarfer gyda phlant ar draws y Sir fel rhan o Gôr yr Urdd yn ogystal ag ymarfer ar gyfer Prosiect 23, sef cyflwyniadau dramatig sy'n rhan o ddathliadau agoriadol Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr.

Daeth plant o ysgolion y clwstwr draw atom hefyd i baratoi gwaith celf ar gyfer yr ŵyl. Buon nhw'n creu mygydau a a hetiau Twm Sion Cati, sef teitl cyflwyniad ein clwstwr ni. Diolch i'r artist Karen McRobbie am arwain y gweithdy.


Llongyfarchiadau gwresog i'n Pennaeth Mr Emyr Davies a ymunodd gyda chriw o athrawon y Sir i seiclo can milltir o gwmpas cestyll Sir Gâr er mwyn codi arian ar gyfer yr Eisteddfod. Tipyn o her!

**Coroni Brenin Siarl y 3ydd**






Bu'r Ysgol gyfan yn dysgu am arwyddocad hanesyddol coroni'r Brenin Siarl y 3ydd. Cafwyd cystadleuaeth Ysgol gyfan i ddylunio a chreu coron addas ar gyfer y Brenin. Daeth Mrs Lynette Phillips, Cadeirydd y Llywodraethwyr mewn i feirniadu. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr.



**H THOMAS a'i FAB**

**Peiriannydd Amaethyddol**



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
**TANYBRYN, GLANDWR**
***Trydanwyr***
***Siop Radio a Theledu***
**CRYMYCH**
**Setiau ar werth**
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
***Cartref Oddi Cartref***



Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

# YSGOL BRO BRYNACH

Ar ddechrau'r tymor croesawyd Mrs Vanessa Roberts, Pennaeth Ysgol Llys Hywel sydd wedi cymryd swydd pennaeth dros dro. Gobeithiwn iddi fwynhau ei phrofiad gyda ni yma yn Ysgol Bro Brynach. Hefyd, croesawyd dau ddisgybl newydd yn nosbarth Lliwe, sef Harry a Megan.

Teithiodd criw o ddisgyblion i gymryd rhan yng ngweithdy celf Prosiect 23 gyda Karen McRobbie er mwyn paratoi gwaith celf ar gyfer Chwilio'r Chwedl Twm Sion Cati ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2023.



Braf oedd cael ymweliad wrth wirfoddolwyr yr RNLI er mwyn gwneud gwasanaeth ar eu gwaith nhw yn y gymuned ac i rannu gwybodaeth holl bwysig am ddiogelwch ar y glannau. Mwynhaodd pawb y gwasanaeth gan ddysgu ffeithiau a gwybodaeth newydd gall achub ein bywydau.

Ar ddydd Gwener y 5ed o Fai gwisgodd y disgyblion mewn dillad parti er mwyn cydnabod Coroni Brenin Siarl III. Cafwyd disgo ysgol gyfan ac yna ysgytlaeth a chacen i ddilyn.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae dosbarth Sien wedi bod ynghlwm â rhaglen gorfforol gydag Actif Sir Gâr. Maent wedi dilyn y rhaglen yn dda yn eu gwersi corfforol gan feistroli sgiliau pêl newydd. Diolch i Actif Sir Gâr am ei hamser.

# Cadwch Cymru'n Daclus

Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,
I'w thraddodi i'm plant, ac i blant fy mhlant, yn dreftadaeth dragwyddol.

Dyna eiriau cyfarwydd allan o Buchedd Garmon. Mae'n berthnasol iawn wrth son am Cadwch Cymru'n Daclus, yr elusen sy'n cyflawni gwaith gwych ar hyd a lled Cymru. Maent yn cynnal ymgyrch blynyddol rhwng diwedd mis Mawrth a dechrau mis Ebrill i annog unigolion, grwpiau, cymdeithasau, mudiadau, ysgolion ac ati, i fynd allan i'w cymunedau i gasglu sbwriel. Bu cannoedd a'r gannoedd o bobol, o bob oed, yn cymryd rhan yn yr ymgyrch drwy lanhau llefydd megis traethau, afonydd, mynyddoedd, caeau chwarae, strydoedd, tu allan i ysbytai, canolfannau hamdden ac wrth ymyl hewlydd. Casglwyd tunelli di-ri o sbwriel o ganlyniad i waith gwych y byddin o wirfoddolwyr, sy'n cymryd balchder mawr yn eu cymunedau. Mae'n warthus i feddwl sut mae canran bach iawn o'r boblogaeth yn gallu creu cymaint o lanast ar hyd a lled ein gwlad. Mae Cadwch Cymru'n Daclus yn / wedi buddsoddi llawer iawn o'i hadnoddau dros y blynyddoedd diwethaf, yn ceisio addysgu plant a pobol ifanc i gymryd balchder yn y gymuned lle maent yn byw. Ei gobaith yw y bydd hyn yn dwyn ffrwyth maes o law, ond amser a ddengys ynglyn a hynny. Gobeitho bydd newid agwedd, er gwell, ymysg y lleiafrif di-hid.



Roedd hi'n galondid mawr felly i weld tair chwaer ifanc sef Lydia, Alys ac Isla Evans allan yn casglu sbwriel o gwmpas Efailwen gyda'i mam Glesni ar ddechrau mis Ebrill. Maent yn wyresau i Iwan a Meinir Jenkins, Rhosfach, Efailwen a mae'r ddau yn falch iawn o ymdrechion y dair chwaer. Diolch o galon Lydia, Alys ac Isla, rydych yn lysgenhadon gwych i'r elusen. Beth am ddilyn esiampl y dair a mynd allan i gasglu sbwriel o amgylch eich cymuned, y tro nesaf byddwch yn mynd am dro. Gadewch i ni gyd ymfalchio yn yr ardal lle rydym yn byw, gan wneud ein rhan i'w gadw yn lan ac yn daclus.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

# Rali hen geir Wolseley

Cynhaliwyd rali hen geir Wolseley yn ystod penwythnos Ebrill 21ain – 24ain. Bu'r criw yn aros yng ngwesty Nantyffin, Llandysilio gyda nifer wedi teithio cryn bellter - o lefydd megis Preston, Norfolk, Hampshire, ond gyda'r mwyafrif wedi cyrraedd o wahanol ardaloedd o Gymru.

Ymwelwyd â nifer o lefydd diddorol ar y dydd Sadwrn, yn cynnwys Llys y Fran, Niwgwl, Tyddewi ac Abergwaun. Cawsom groeso mawr a lluniaeth ysgafn yn Nhrelew, Eglwyswrw ar ôl gweld y ceffylau gwedd. Ymlaen o fan honno i Dafarn Sinc a Cofeb Waldo cyn dychwelyd i Nantyffin.

Ar y dydd Sul, teithiwyd o amgylch de Sir Benfro – drwy Aberdaugleddau, Neyland, dros Pont Cleddau, a draw i Stack Rocks i weld y miloedd o adar fan honno. Ymlaen wedyn i Ddinbych y Pysgod a nôl ar hyd yr arfordir cyn dychwelyd i Nantyffin yn gynnar y noson honno.

Diolch o galon i Emrys ac Ann Murrow a'r staff i gyd yn Nantyffin am eu croeso a'u lletygarwch, cafwyd penwythnos i'w gofio.


Gwelir rhai o'r ceir tu fas i Westy Nantyffin ac hefyd lawr yn Niwgwl.




Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mai 2023** | | |
| Llun 15 | **Hyfrydwch Sir Lincoln** | 5 |
| **Mehefin** | | |
| Mer 21 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Mer 28 | **Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid** | 7 |
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 1 | *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC* | 1 |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| **Awst** | | |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |
| Llun 21 | **Gerddi Highgrove ac ardal y Cotswolds** | 2 |
| **Medi** | | |
| Sad 2 | **Jersey** | 7 |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |
| **Hydref** | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Heythrop, ardal y Cotswolds** | 5 |
| Mer 18 | *Daniel O'Donnell, NDS, Caerdydd* | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Tachwedd** | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd Aladdin, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |
| **Ionawr 2024** | | |
| Mer 24 | *Sioe Ddawns - Giovanni Pernice, NDS* | 1 |
| **Chwefror** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| Sad 10 | **Torquay** | 5 |
| **Ebrill** | | |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5 |
| Gwe 26 | **Gwyl Corau Meibion Cymru, Neuadd Albert, Llundain** | 3 |
| **Mai 2024** | | |
| Mer 8 | **Ynysoedd Shetland a Pitlochry** | 9 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |

**Manylion rhai teithiau 2024 ar lein nawr!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

## Cymdeithas Rheilffordd y Cardi Bach ar daith tren

Anarferol yw hi i aelodau Cymdeithas Rheilffordd Y Cardi Bach gwrdd yn ystod y dydd ond ar ddydd Iau, Ebrill 27ain daeth tyrfa at ei gilydd ar rheilffordd Gwili. Y rheswm am hyn oedd i ddathlu agor estyniad o orsaf Bronwydd i orsaf newydd Abergwili. Cafodd pawb daith ar y tren ac hefyd te hufen yn y fargen. Roedd pawb wrth eu bodd yn mwynhau'r te ac hefyd yn cymryd y golygfeydd trwy ffenestri'r goets. Tynnwyd y tren gan injan stem Pannier a weithiodd yng ngogledd Cymru trwy ei hoes. Dyma i chi luniau o'r aelodau ac o'r injan.





## Wythnos Genedlaethol Rhoi Gwaed Mehefin 16eg – 22ain

Beth am wneud rhywbeth arbennig iawn yn ystod yr wythnosau nesaf ac arbed bywydau, drwy roi gwaed. Mae'n broses syml iawn. Y cyfan sydd angen gwneud yw mynd ar wefan Gwasanaeth Gwaed Cymru i sicrhau eich bod yn gymwys i roi gwaed, gwneud apwyntiad mewn canolfan gyfleus i chi ac yna mynychu'r apwyntiad. Wrth gyrraedd y ganolfan, bydd angen cwblhau holiadur byr ac wedi hynny, byddant yn profi eich lefel haearn. Os yw popeth yn iawn, rydych yn barod i roi gwaed, proses sydd yn cymryd i fyny at ddeg munud. Gall pob uned o waed arbed bywydau hyd at 3 oedolyn neu 7 o fabanod ac mae angen 2000 uned o waed bob wythnos er mwyn darparu cyflenwad digonol i'r Gwasanaeth Iechyd. Defnyddir y gwaed gan lawfeddygon sy'n cyflawni llawdriniaethau; ei roi i gleifion sy'n dioddef o leukaemia ( cancr y gwaed ); a phobol sydd wedi bod mewn damweiniau.

Ar hyn o bryd, dim ond 3% o'r boblogaeth sy'n rhoi gwaed, canran ofnadwy o isel! Y rhesymau gan bobol am beidio rhoi gwaed yn aml iawn yw bod "ofn nodwyddau arnaf" a "sdim amser gyda fi". Fy ateb i i'r rheswm cyntaf, yw nad yw'r nodwydd yn neud dolur o gwbwl, ac i'r ail – beth am godi awr ynghynt yn y bore, mynd i'r gwely awr yn hwyrach yn y nos, neu gwylio awr yn llai o deledu. Hyd yn oed os byddwch yn rhoi gwaed dair gwaith yn ystod y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i hanner munud o'ch amser bob dydd o'r flwyddyn. Amser byr iawn er mwyn arbed bywyd rhywun – a pwy a wyr, falle bydd angen gwaed arnoch eich hunan un diwrnod.

Os yw rhoi yn eich gwaed, ewch amdani os gwelwch yn dda. *Eurfyl Lewis*

## Cyngor Cymuned Llanwinio

### Swydd Wag – Clerc Cyngor Cymuned Llanwinio

Mae Cyngor Cymuned Llanwinio angen Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r swydd barhaol hon am 17.5 awr y mis ac mae gofyn i ddeiliad y swydd weithio o gartref. Bydd y tâl yn unol â'r raddfa a argymhellir gan yr NJC, yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau. Bydd disgwyl i chi fynychu cyfarfodydd y Cyngor gyda'r nos bob deufis.

Rhaid i'r Clerc sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei fusnes yn briodol a bydd yn darparu cyngor annibynnol, gwrthrychol a phroffesiynol, llywodraethu a chymorth gweinyddol. Y Clerc hefyd yw Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor. Byddwch yn llythrennog mewn cyfrifiadureg, yn gallu ysgogi eich hun a bydd gennych sgiliau rhifedd a llythrennedd da. Mae profiad yn ddymunol ond nid yn hanfodol gan y bydd hyfforddiant a chefnogaeth ar gael i'r ymgeisydd llwyddiannus. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais ond nid yn hanfodol.

Am drafodaeth anffurfiol a/neu ddisgrifiad swydd llawn, cysylltwch â'r Clerc presennol; Ross Gallie ar 01994 484534 neu e-bostiwch clerk@llanwiniocommunitycouncil. I wneud cais am y swydd, anfonwch eich CV at y Clerc erbyn 02/06/2023.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 5ed Mehefin | GERDDI SWYDD LINCOLN a'I HANES DIDDOROL | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 7fed Mehefin | TAITH YSBLENNYDD O'R IWERDDON | £1,275 | 11 Diwrnod |
| Gwener 16eg Mehefin | SIOE FAWREDDOG "BBC GARDENERS WORLD" | £195 | 2 Ddiwrnod |
| Llun 19eg Mehefin | TREN, CWCH a CASTLE HOWARD YN EFROG, LLOEGR | £485 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Mehefin | CYFLYMDER CEIR RASIO YN GOODWOOD | £365 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 24ain Mehefin | TRENNAU BACH Y RHINEYN YR ALMAEN | £1,150 | 8 Diwrnod |
| Mawrth 27ain Mehefin | LLANDUDNO YN YR HAF | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Gorff | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 7fed Gorff | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | £360 | 3 Diwrnod |
| Llun 10fed Gorff | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU | | |
| Iau 13eg Gorff | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | £290 | 3 Diwrnod |
| Sul 16eg Gorff | SUFFOLK | £550 | 5 Diwrnod |
| Gwener 28ain Gorff | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | £995 | 8 Diwrnod |
| SUL 30ain Gorff | CAMBRIDGE | £525 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Awst | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 11fed Awst | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | £255 | 3 Diwrnod |
| Llun 14eg Awst | DURHAM A BEAMISH | £515 | 5 Diwrnod |
| Llun 21ain Awst | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | £535 | 5 Diwrnod |
| Mercher 23ain Awst | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Awst | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | £530 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 2ail Medi | LLANDUDNO A CHAMLAS LLANGOLLEN | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Medi | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | £375 | 4 Diwrnod |
| Llun 11fed Medi | NORFOLK - SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Medi | DUMFRIES a GALLOWAY YR ALBAN | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Medi | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | £675 | 6 Diwrnod |
| Llun 25ain Medi | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | £360 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hyd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hyd | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hyd | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tach | TWRCI A THINSEL AR DARTMOOR | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tach | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tach | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tach | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tach | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Rhag | TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Rhag | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | £410 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Rhag | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | £290 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 30ain Rhag | DATHLU'R FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | I / G | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# 'Steddfod Sir Gâr

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr ar y gorwel, a chyn hir fydd **Mistar Urdd** a phawb yn teithio ar hyd y ffyrdd a thrwy bentrefi hyfrytaf y Sir. **Fedrwch chi ddyfalu enwau'r pentrefi cyn aildrefnu'r llythrennau coll i enwi'r dref arbennig?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/06/23**

**Ateb Cystadleuaeth Glaw neu Hindda –** Gwylan o'r môr, daw glaw ar ei hôl; Enfys y bore, aml gawode; Mae'n bwrw hen wragedd â ffyn; Awyr goch y prynhawn, tywydd teg a gawn; Eira mân, eira mawr; Awyr goch y bore, aml gawode.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓟ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn yn 12 oed i Lloyd Hart ar 21ain o Fai ac i'w chwaer fach Mari Saer-Hart a fydd yn 4 oed ar yr 11eg o Fehefin (ŵyr ac wyres Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon). Penblwydd hapus iawn iddynt a chariad oddi wrth Dad, Mam, Dadcu, Mamgu a'r teulu oll.





Penblwydd Hapus i Alys James o Benybont ar Ogwr a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 7 oed ar Fai 22ain ac i'w chefnder Steffan Leeke o Hensol a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 2 oed ar Fai 24ain. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn James), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus i Gwilym Caeron Snelson, Caerfyrddin a fydd yn 10 oed ar Fehefin 5ed. Cariad mawr wrth Dad a Mam; Caleb; Osian; Tadcu a Mamgu; Taid a Nain Dinbych a'r teulu oll.



Penblwydd hapus iawn i Betsi Haf o Feisgyn. Fe fydd hi'n 7 oed ar yr unfed ar bymtheg o Fehefin. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Efa-Grug a Mari Elli, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin.

## TAITH CYNHYRCHIAD NEWYDD SBON AR GYFER 2023…

### JEMIMA

**Gan Jeremy Turner**

Rhwng Mai a Gorffennaf 2023, mi fyddwn ni'n perfformio cynhyrchiad newydd sbon mewn 19 o theatrau ledled Cymru – Jemima. Dyma gynhyrchiad cyffrous, newydd am un o fenywod pwysicaf yn hanes Cymru – Jemima Niclas. Hanes, cerddoriaeth, ychydig o ddireidi, a lot o hwyl wrth i ni roi sylw i'r arwres Gymreig o Sir Benfro. Addas i blant 7+




**TAITH JEMIMA**

Y Lyric
Caerfyrddin
28/6 13.00
29/6 10.00

Theatr Mwldan
15/6 13.00

# Clwb Bowlio Llanboidy

## Llwyddiant Tîm B



Yn y llun gwelir chwaraewyr Tîm B Clwb Bowlio Llanboidy. Maent wedi cael tymor llwyddiannus iawn drwy ddod i'r brig yn Adran 2 Sir Gaerfyrddin – llongyfarchiadau mawr iddynt.

Maent wedi cael dyrchafiad i Adran 1 Sir Gaerfyrddin a byddant yn dechrau chwarae yn yr adran honno ym mis Medi. Dymuna'r Cardi Bach lwyddiant pellach iddynt tymor nesaf ac ymlaen i'r dyfodol.

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**
Mae wedi bod yn dymor caled i'r tîm cyntaf felly diolch byth ei fod wedi dod i ben.

Ebrill
15fed - Crymych 41 Hendy Gwyn 0. Colli'n drwm yn erbyn tîm egniol a creadigol Crymych.
19eg - Hendy Gwyn 15 Gorseinon 28. Colli eto ond llwyddo i gael pwyntiau ar y bwrdd tro hyn.
26ain- Hendy Gwyn 20 Aberystwyth 39. Cais yr un i Geraint Jones, Jack Mason a Benji Kirk. Trosiad a chic gosb gan Geraint Jones.
29ain- Gorseinon 19 Hendy Gwyn 17.
Buom yn anlwcus iawn i golli'r gêm yn y funud diwethaf. Cais yr un i Dan Bennett a Ianto Davies, 2 drosiad ac 1 gic gosb gan Geraint Jones.


**Ieuenctid**
Mae tymor y tîm ieuenctid hefyd wedi dod i ben erbyn hyn. Hendy Gwyn 6 Arberth 6. 2 gic cosb gan Lennon Reynolds.
Crymych 29 Hendy Gwyn 12. 2 gais gan Jack Worthing ac 1 trosiad gan Lennon Reynolds.

**Menywod**
Dim ond un gêm mae'r menywod wedi chwarae yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn erbyn Porth Tywyn, gan ennill 17-13. 1 cais yr un i Danielle Lawrence, Macey Bowen a Marged Williams ac 1 trosiad gan Macey Bowen. Cafodd pob gêm arall ei ohirio achos doedd dim timau gyda'n gwrthwynebwyr. Mae un gêm gennym ar ôl, i ffwrdd yn erbyn Gwernyfed. Hon fydd gêm diwethaf Nat Walsh, sydd wedi bod yn chwarae gyda ni am 18 mlynedd!!

Mae pawb yn edrych ymlaen am ychydig o orffwys dros yr wythnosau sydd i ddod, cyn ail ddechrau ymarfer eto ar gyfer y tymor nesaf.

*Suzanne Davies*














*parhad o dudalen 36*

Ebrill 29ain – San Cler 89 Llangwm 0. Croesawyd Llangwm i Barc Griffith Jones ac roedd y chwarae agoriadol yn awgrymu bod y Seintiau mewn am brynhawn caled. Wedi dweud hynny, gwnaethom sgorio ar ôl 15 munud ac aeth y bechgyn ymlaen i chwarae'n hyderus gan symud y bêl drwy'r cymalau gan sgorio 15 cais a 7 trosiad.

Mai 3ydd – San Cler 45 Neyland 0. Croesawyd Neyland ar gyfer y gêm ganol wythnos a gwnaethant ein herio'n galed. Llwyddodd y Seintiau i sgorio dau gais ar ddiwedd yr hanner cyntaf i fynd ar y blaen 12 - 0. Sgoriodd y Seintiau 5 cais arall yn ystod yr ail hanner a llwyddodd Dafydd Waters gyda 5 trosiad ar y noson.



Mai 6ed – San Cler 24 Llanbed 28. Dyma'r gêm hir ddisgwyliedig rhwng y ddau dim ar y brig. Daeth cynulleidfa fawr ynghyd ar Barc Griffith Jones a gyda tywydd da, roedd yn argoeli i fod yn dipyn o gêm – a dyna'n union a gawsom. Dechreuodd y Seintiau yn dda wrth i Tom Rees sgorio cais dan y pyst, llwyddodd Dan Griffiths gyda'r trosiad. Tarodd Llanbed nôl yn syth gyda 1 cic gosb ac 1 cais, i fynd ar y blaen 7 - 8. Roedd y gêm yn cael ei chwarae ar garlam gyda'r ddau amddiffyn yn cael eu herio – ond arweiniodd chwarae mentrus y Seintiau at gais i Thomas Mason, seren y gêm, wnaeth ganfod ei ffordd i'r llinell gais ar ôl iddo drechu 3 o amddiffynnwyr Llanbed. Trosiad lwyddiannus i Dan Griffiths. Sgoriodd Llanbed gais drwy ei hasgellwr chwim, wedi ei drosi'n llwyddiannus. Llwyddodd y ddau dîm gyda chic cosb yr un, i wneud y sgôr yn 17 - 18 ar yr egwyl. Roeddwn mewn am dipyn o ail hanner wrth i Brandon Davies groesi am gais heb ei drosi, i arwain 24 - 18. Roedd y gêm bellach yn agor lan ac efallai y gallai'r Seintiau, oedd yn ceisio rhedeg yn ei hanner





*Lluniau: Chris Rees*

ei hunain, fod wedi cau'r gêm i lawr a chymryd nifer o giciau cosb oedd ar gael. Profodd hyn yn gostus iawn wrth i Llanbed orffen yn gryf gyda 2 gais i selio'r fuddugoliaeth 24 - 28. Roedd y gêm yn hysbyseb gwych i rygbi Adran 3 a rhoddwyd gwledd i'r dorf, er gwaetha'r canlyniad siomedig.

Dymuna'r clwb ddiolch o galon i'w cefnogwyr a'i noddwyr am y gefnogaeth maent wedi ei dderbyn ar hyd y tymor, gwerthfawrogir hynny'n fawr iawn. *Gwyndaf Williams*

***Emrys ac Ann Murrow***

**Motel Nantyffin**
**Llandissilio**

Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau

Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

**Celia Vlismas**
OPTEGYDD



**Croeso i gleifion GIG!**

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn **01239 711888**
Crymych **01239 831555**
Arberth **01834 861373**
**www.celiavlismasopticians.co.uk**

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

**Robert W. R. Morgan**

ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com



# CHWARAEON




## Clwb Pêl-droed Llanboidy

Dim ond un gêm sydd wedi bod i dîm cyntaf Clwb Pêl-droed Llanboidy dros y mis diwethaf, tra bod yr ail dîm wedi cael cyfnod prysur iawn gan chwarae 5 gem.

**Tîm 1af**
Gorffennodd tymor y tîm cyntaf ar ddydd Sadwrn, Ebrill 22ain gyda gêm adref yn erbyn Crymych. Sgoriodd Crymych yn y pum munud cyntaf, ond taro nôl wnaeth Llanboidy drwy sgorio dwy gôl yn yr ail hanner; un i Nick Jones cyn i Gethin Scourfield sgorio gôl i roi Llanboidy ar y blaen. Gorffennodd y gêm 2-1 i Lanboidy. Diweddglo gwych i'r tymor.

**2il dîm**
Chwaraewyd yn erbyn Aberporth ar ddydd Sadwrn, Ebrill 15fed yng Nghwpan "South Cards", tîm sy'n chwarae un gynghrair yn uchelach na'r ail dîm. Ond, doedd hyn ddim wedi stopio'r tîm gan ennill o 6-5 i fynd trwy i'r rownd nesaf. Goliau gan Jake Holland, Peredur James, Lewis Thomson, Chris Bowen, Ashton Arnold a William Abbot.

Llechryd oedd y gêm nesa, ac yn anffodus colli 2-0 oedd hanes y tîm yn erbyn tîm cryf iawn a chafodd ei wneud yn bencampwyr yn dilyn y canlyniad. Ail dim Felinfach teithiodd lawr i Lanboidy ar Ebrill 29ain ar gyfer gêm chwarteri Cwpan "South Cards". Cafwyd gêm agos iawn ond ennill 2-1 oedd hanes y tîm gan fynd ymlaen tuag y rownd cyn derfynol. Lewis Thomson ac Ashley Herbert wnaeth sgorio'r goliau.

Dwy gêm yn erbyn ail dîm Crymych oedd y gemau nesaf, a hynny mewn dau gwpan gwahanol. Colli 2-1 oedd ei hanes yng Nghwpan Percy Eldridge gyda'r unig gôl yn dod gan Huw Howells. Er y canlyniad siomedig, roedd cyfle i chwarae yn erbyn nhw eto yn y gêm gyn derfynol. Ennill 3-1 oedd hanes y gêm yma, gyda goliau yn dod gan Ashton Arnold a dau gôl i'r capten Chris Bowen. Bydd y rownd derfynol yn Ffostrasol ar nos Wener, Mai 12fed.

**Adran Iau**
Mae'r Clwb wedi dechrau ymarferion i blant a phobl ifanc rhwng 5-16 oed bob bore Sadwrn am 10yb. Bydd yr ymarferion yma yn digwydd dros yr haf. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ymarferion – http://www.ceredigionleague.co.uk/ neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb. *Rhodri Lewis*


Llyr Owen yn erbyn Llechryd


Ymarferion yr Adran Iau

## Clwb Rygbi San Clêr

Mae wedi bod yn gyfnod prysur dros y mis diwethaf, gyda nifer o gemau canol wythnos i ddal i fyny a'r gemau a fethwyd oherwydd ein rhediad cwpan. Mae'r garfan wedi parhau i chwarae'n dda dros yr wythnosau diwethaf wrth i ni dynnu tua diwedd y tymor, gyda'r gemau hir ddisgwyliedig erbyn Llanbedr Pont Steffan i chwarae adref ac oddi cartref, gyda'r ddau dîm yn eistedd ar frig y tabl. Mae'n ymddangos bod y ddau dîm yn ddiogel o gael dyrchafiad eleni, ond mae llawer i chwarae amdano i benderfynu pwy fydd pencampwyr Adran 3A y Gorllewin.

Ebrill 8fed - Aberaeron 13 – San Cler 36. Dechreuodd y Seintiau'n gryf wrth i Jac Howells a Rhodri Jones sgorio cais yr un. Daeth Aberaeron nôl mewn i'r gêm i wneud y sgor yn 13 – 14 ar yr egwyl. Gwnaeth y bechgyn chwarae'n dda iawn yn yr ail hanner drwy sgorio 22 pwynt arall, I trosiad a cais yr un i Dafydd Evans, Jac Howells, Brandon Davies a Scott Newton. Perfformiad arbennig gan y tîm.

Ebrill 15fed – San Cler 33 Aberteifi 7. Dechreuodd y Seintiau ar ras gan arwain 33 - 0 ar hanner amser, gyda ceisiau gan Rhodri Jones, Jack Green, Jack Howells, Liam Rogers a Tomos Williams. 4 trosiad gan Dan Griffiths. Gêm o 2 hanner oedd hon mewn gwirionedd gyda'r Cardis yn taro'n ôl yn yr ail hanner ac yn amddiffyn yn dda i atal sgor pellach gan y Seintiau.

Ebrill 22ain - Doc Penfro 0 San Cler 62. Hon oedd ein gêm ganol wythnos gyntaf a gan fod y tywydd yn ffafriol, roedd y bechgyn yn awyddus i ledaenu'r bêl ar bob cyfle, gan sgorio 10 cais a 6 trosiad. Yr uchafbwynt oedd 3 cais i'r ail reng Brandon Davies.

*parhad ar dudalen 35*